# Dogfen ir Cyhoedd

**CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL**

Mr Dylan J. Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| **PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO** | **PARTNERSHIP AND REGENERATION SCRUTINY COMMITTEE** |
| **DYDD MERCHER, 19 EBRILL, 2023 am 9.30 o'r gloch yb** | **WEDNESDAY, 19 APRIL, 2023 at 9.30 a.m.** |
| **CYFARFOD HYBRID – YSTAFELL BWYLLGOR 1, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI AC YN RHITHIOL DRWY ZOOM** | **HYBRID MEETING – COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI AND VIRTUALLY through ZOOM** |
| **Swyddog Pwyllgor — Mrs. Mairwen Hughes 01248 752518** | **Committee Officer** |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**Y Grwp Annibynnol / The Independent Group**
Gwilym O Jones **(Is-gadeirydd/Vice-Chair)**

**Plaid Cymru / The Party of Wales**

Non Dafydd, Euryn Morris, Trefor Ll Hughes MBE, John I Jones, Dylan Rees **(Cadeirydd/Chair),** Margaret M Roberts, Ken Taylor

**Annibynnwyr Môn/Anglesey Independents**

Paul Ellis, Jeff Evans, Derek Owen

**Llafur Cymru/Welsh Labour**
Pip O'Neill

**Aelodau Ychwanegol/Additional Members (gyda hawl pleidleisio ar faterion addysg/with voting rights in respect of educational matters)**

**Sedd Wag/Vacant Seat - (Yr Eglwys yng Nghymru/The Church in Wales), Sedd Wag/Vacant Seat (Rhiant Llywodraethwr – Sector Ysgolion Cynradd/Parent Governor – Primary Schools Sector) Mrs Llio Johnson-(Rhiant Llywodraethwyr – Sector Ysgolion Uwchradd ac ADY/Parent Governor – Secondary Schools Sector and ALN) Mr John Tierney (Yr Eglwys Babyddol and Mr. Keith Roberts (Yr Eglwys Babyddol Rufeinig/The Roman Catholic Church)**

**Aelod Cyfetholedig/Co-opted Member (Dim Hawl Pleidleisio/No Voting Rights)**
Mr. Dafydd Gruffydd ( Rheolwr Gyfarwyddwr/Managing Director - Menter Môn)

# R H A G L E N

1 **YMDDIHEURIADAU**

2 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

3 **COFNODION** (Tudalennau 1 - 10)

Cyflwyno, i'w cadarnhau, gofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 15 Mawrth, 2023.

4 **STRATEGAETH GWELLA CANOL TREFI YNYS MON** (Tudalennau 11 - 30)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd.

5 **PORTHLADDOEDD RHYDD YNYS MÔN** (Tudalennau 31 - 40)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd.

# PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO

## Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 15 Mawrth 2023

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Cynghorydd Dylan Rees (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Gwilym O Jones (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Non Dafydd, Jeff M Evans, T Ll Hughes MBE, John Ifan Jones, Euryn Morris, Pip O'Neill, Derek Owen, Margaret M Roberts a Ken Taylor.<br><br>Y Cynghorydd Llinos Medi (Arweinydd y Cyngor ac Aelod Portffolio Datblygu Economaidd). |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc,<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd (ar gyfer eitem 5),<br>Pennaeth Democratiaeth (ar gyfer eitem 4),<br>Rheolwr Polisi a’r Gymraeg (ar gyfer eitem 4),<br>Rheolwr Datblygu Economaidd (ar gyfer eitem 5),<br>Rheolwr Rhaglen Partneriaeth Tirwedd Ynys Cybi (ar gyfer eitem 5),<br>Rheolwr Sgriwtini (AGD),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd Gary Pritchard (Aelod Portffolio Plant, Ieuenctid a Gwasanaethau Tai);<br>Y Cynghorydd Dafydd R Thomas (Aelod Portffolio Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff);<br>Y Cynghorydd Ieuan Williams (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Addysg a'r Gymraeg);<br>Dirprwy Brif Weithredwr,<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol,<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Cyngor Busnes)/Swyddog Monitro,<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion.<br><br>Mr John Tierney - Yr Eglwys Gatholig |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Neville Evans (Aelod Portffolio Hamdden, Twristiaeth a Morwrol);<br>Y Cynghorydd Carwyn Jones (Aelod Portffolio Profiadau Corfforaethol a Chwsmeriaid);<br>Cynghorydd Alun Roberts (Aelod Portffolio Gwasanaethau Oedolion a Diogelwch Cymunedol);<br>Y Cynghorydd Nicola Roberts (Aelod Portffolio Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Newid Hinsawdd). |

**1 YMDDIHEURIADAU**

Fel y nodwyd uchod.

**2 DATGAN DIDDORDEB**

Bu i’r Cynghorydd Euryn Morris ddatgan diddordeb personol yn Eitem 6 – Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru Chwarter 3 : Adroddiad Cynnydd 2022/2023.

**3 COFNODION**

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Chwefror, 2023 yn gywir.

**4 ADRODDIAD BLYNYDDOL AR GYDRADDOLDEBAU: 2021/2022**

Cyflwynwyd Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol 2021/22 i'w ystyried gan y Pwyllgor.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor, o dan Reoliadau Dyletswyddau Statudol Deddf Cydraddoldeb 2010 (Cymru) 2011, fod yn rhaid i'r Cyngor gyhoeddi adroddiad blynyddol ar gydraddoldeb. Prif bwrpas yr adroddiad yw dangos sut mae'r Cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau cydraddoldeb. Dywedodd fod yr adroddiad yn rhoi enghreifftiau o'r ffordd yr oedd yr Awdurdod yn hyrwyddo cydraddoldeb o fewn y cymunedau a'r gweithlu, gan esbonio sut mae gwybodaeth berthnasol yn cael ei chasglu. Mae’n amlinellu'r trefniadau ar gyfer cynnal asesiadau effaith, yn rhoi amlinelliad o gynnydd o ran cyflawni amcanion cydraddoldeb yn ogystal â nodi'r blaenoriaethau ar gyfer y deuddeg mis nesaf. Cyfeirir hefyd o fewn yr adroddiad at gyrhaeddiad disgyblion mewn ysgolion a chyrhaeddiad disgyblion oedd yn cael cinio ysgol am ddim.

Wrth ystyried yr Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb ar gyfer 2021/2022 bu'r Pwyllgor yn trafod y canlynol:-

- **Beth yw'r prif heriau a wynebir o ran prif ffrydio cydraddoldeb o fewn y Cyngor a hefyd beth yw'r anawsterau gyda rhagfarn ymwybodol?**

  Mewn ymateb, dywedodd yr Arweinydd fod bylchau data, a bod yr Awdurdod yn awyddus i staff deimlo'n gyfforddus ac yn fodlon rhannu eu gwybodaeth bersonol. Dywedodd fod rhagfarn yn broblem a bod cymdeithas yn ei chael hi'n anodd ymdopi â gwahanol sefyllfaoedd. Dywedodd hefyd y bydd yn yr Adroddiad Blynyddol nesaf yn dangos sut mae'r gynrychiolaeth wleidyddol wedi newid o fewn y Cyngor. Mae'r gwaith sydd wedi ei wneud i annog pobl o gefndiroedd gwahanol i gynnig eu henwau i fod yn Aelodau Etholedig ar y Cyngor wedi bod yn gadarnhaol. Yn dilyn etholiadau llywodraeth leol fis Mai diwethaf mae yna Aelodau Etholedig iau a mwy o ferched. Cyfeiriodd yr Arweinydd ymhellach at y bwlch cyflog rhwng dynion a merched ac nad yw'r Awdurdod hwn yn talu taliadau bonws. Mae'r cap tâl rhwng y rhywiau'n is o lawer na'r cyfartaledd ar draws y DU. Cyfeiriodd y Rheolwr Polisi a'r Gymraeg

at ragfarn ddiarwybod ac mae'n cael ei gydnabod fel her. Cynigir hyfforddiant ar ragfarn ddiarwybod i swyddogion y Cyngor yn rheolaidd.

- **Bydd angen i Gynllun Cydraddoldeb Strategol newydd gael ei gymeradwyo erbyn 1 Ebrill 2024. Sut mae Swyddogion yn bwriadu mynd ati i gasglu gwybodaeth berthnasol er mwyn llywio ein hamcanion ar gyfer 2024-2028?**

  Mewn ymateb, dywedodd y Pennaeth Democratiaeth fod y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn ei gwneud hi'n glir bod yn rhaid i'r Awdurdod ymgysylltu ac ymgynghori'n eang i gasglu gwybodaeth am amcanion cydraddoldeb. Bydd gwaith yn cael ei wneud i gasglu gwybodaeth gan gynrychiolwyr grwpiau gwarchodedig o dan y ddeddf cydraddoldeb. Mae'r Awdurdod yn ffodus fod sefydliadau sy'n bartneriaid iddo, megis Medrwn Môn, y gall y Cyngor eu defnyddio i gael mynediad at grwpiau gwarchodedig. Dywedodd ymhellach y defnyddir arbenigedd a chanllawiau'r Comisiwn Cydraddoldeb hefyd i lywio gweithgareddau ymgysylltu'r Awdurdod.

- **Beth fydd rôl y Pwyllgor hwn yn y broses o ddatblygu amcanion cydraddoldeb newydd?**

  Mewn ymateb, dywedodd y Rheolwr Polisi a'r Gymraeg fod gan y Pwyllgor hwn rôl allweddol i gyfrannu at unrhyw ymgynghoriad ar yr amcanion cydraddoldeb o fewn y Cyngor. Dywedodd y bydd y Cyngor yn ymgysylltu â gwahanol grwpiau gwarchodedig er mwyn canfod pa amcanion y dylai'r Cyngor eu gosod yn eu barn nhw. Byddai mewnbwn y Pwyllgor hwn yn cael ei groesawu.

  Cododd y Pwyllgor y mater o hyrwyddo'r defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus. Mae problemau ynghylch colli llwybrau bysiau a'r ffaith nad yw rhai bysiau'n cyrraedd ar yr amser penodol o fewn eu hamserlen. Mewn ymateb, dywedodd Arweinydd y Cyngor fod grantiau'n cael eu derbyn ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru er mwyn cynnal llwybrau bysiau hygyrch, ond mae problemau gyda llwybrau trafnidiaeth mewn ardaloedd gwledig. Yn ystod trafodaethau parhaus gyda Llywodraeth Cymru pwysleisiwyd y ffaith nad yw eu Strategaeth Drafnidiaeth yn ymateb i anghenion a heriau ardaloedd gwledig.

- **Oes 'na gynlluniau ar waith i leihau bwlch cyrhaeddiad addysgol disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim o'i gymharu â'r rhai nad ydynt? Beth fydd effaith penderfyniad Llywodraeth Cymru i gynnig prydau ysgol am ddim i bob plentyn ysgol gynradd?**

  Mewn ymateb, dywedodd Arweinydd y Cyngor fod ganddi bryderon ynghylch sut mae'r fformiwla yn cael ei defnyddio i fesur os yw plentyn yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Dywedodd fod teuluoedd sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim i'w plant nad ydynt yn ei hawlio. Daeth hyn i'r amlwg yn ystod y pandemig gyda mwy o blant yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Cyfeiriodd yr Arweinydd ymhellach at y cyrhaeddiad addysgol rhwng disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim o'i gymharu â disgyblion nad ydynt yn gymwys a dywedodd ei bod o'r farn bod angen cyflwyno fformiwla decach. Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc y gall tlodi gael effaith andwyol ar

berfformiad disgyblion gyda rhai teuluoedd yn methu â fforddio gwisg ysgol a thripiau ysgol.  Dywedodd fod hyfforddiant ar gael i Ysgolion a Llywodraethwyr i ganfod sut mae eu polisïau ysgol yn cael effaith ar berfformiad plant.  Mae Cynllun sy’n Ystyriol o Drawma ar gael i ysgolion ac mae nifer o staff ysgol eisoes wedi ennill Diploma Ymarfer sy’n Ystyriol o Drawma.  Dywedodd y bydd cyflwyno Cwricwlwm newydd Cymru yn golygu bod disgyblion yn cael asesiad unigol yn hytrach na chael eu monitro o fewn grwpiau.  Bydd cyrhaeddiad disgyblion yn cael ei fonitro a byddant yn derbyn cefnogaeth ac ymyrraeth os bydd angen.

- **Cyfeiriwyd at y ffaith bod awdurdodau lleol yn gweithio gyda sefydliadau sy’n bartneriaid. Codwyd cwestiynau ynghylch a all yr Awdurdod hwn ddylanwadu ar sefydliadau sy’n bartneriaid?**

  Mewn ymateb, dywedodd Arweinydd y Cyngor fod unrhyw waith partneriaeth a wneir gan yr Awdurdod yn cael ei lywio gan egwyddorion craidd. Dywedodd fod deddfwriaeth yn cefnogi cydraddoldeb drwy'r Ddeddf Llywodraeth Leol.  Yn ôl y Prif Weithredwr, mae cydweithio gyda sefydliadau sy’n bartneriaid yn bwysig ond mae angen sicrhau nad yw'r Awdurdod yn cyfaddawdu ar ei werthoedd craidd a sicrhau ei fod yn bartneriaeth ar y cyd.  Cyfeiriodd at Gynllun y Cyngor sy'n pwysleisio 4 gwerth; mae un o'r 4 gwerth yn cyfeirio at 'barchu a bod yn barchus tuag at eraill'.  Dywedodd fod yr Awdurdod wedi ymrwymo tuag at gydraddoldeb ac i amddiffyn pobl sy'n dioddef anfantais gymdeithasol ac economaidd.  Wrth fabwysiadu Cynllun y Cyngor, mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i greu Cynllun Cydraddoldeb newydd y flwyddyn nesaf. Dywedodd y Prif Weithredwr ymhellach ei bod yn bwysig bod cydraddoldeb yn cael ei gynnwys yng Ngherdyn Sgorio’r Cyngor sy'n cael ei fonitro bob chwarter; yna gallai adrodd ar gydraddoldeb fod yn rhan o'r broses fonitro yn hytrach na’i drafod yn flynyddol.

- **Cyfeiriwyd at gynigion Parcio ar Balmentydd gan Lywodraeth Cymru a’r gynnig i roi pwerau i Awdurdodau Lleol fynd i’r afael â pharcio ar balmentydd**

  Mewn ymateb, dywedodd Arweinydd y Cyngor, fod y newid yn y ddeddfwriaeth o ran parcio’n anghyfreithlon ar balmentydd, yn golygu bydd modd i awdurdodau lleol gasglu data sy'n cael effaith ar gydraddoldeb gan fod angen i bobl allu cerdded yn ddiogel ar balmentydd. Dywedodd y bydd angen cynnal trafodaethau mewnol o ran gweithredu'r ddeddfwriaeth newydd, yn enwedig y gallu i orfodi.

- **O ran trefniadau asesu effaith yr Awdurdod, y nod yw bod nodi a lleihau effeithiau negyddol a hyrwyddo cydraddoldeb yn dod yn rhan o waith y Cyngor o ddydd i ddydd.  Sut gall y Pwyllgor hwn gyfrannu at wireddu hynny?**

  Mewn ymateb, dywedodd Arweinydd y Cyngor fod angen i'r Pwyllgor sicrhau bod asesiad effaith ar gydraddoldeb yn cael ei gynnal pan fydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'w ystyried gan y Pwyllgor.  Tynnodd sylw at yr angen i ystyried pob person o fewn cymdeithas pan wneir penderfyniadau.

- **Codwyd cwestiynau ynghylch faint o staff sydd wedi cytuno i ddarparu data ac a yw'n ddigonol darparu'r wybodaeth ofynnol sydd ei hangen ar y Cyngor a allai ychwanegu gwerth i'r Adroddiad Cydraddoldeb?**

  Mewn ymateb, dywedodd Arweinydd y Cyngor fod angen i'r Awdurdod sicrhau bod staff yn teimlo'n hyderus i rannu gwybodaeth. Dywedodd y bydd hyfforddiant yn egluro i staff pam fod angen data penodol ar yr Awdurdod a bydd eu hymatebion yn cryfhau cydraddoldeb. Dywedodd y Rheolwr Polisi a'r Gymraeg fod casglu data'n her a bod gwaith wedi ei wneud i adolygu'r dogfennau sy'n cael eu defnyddio gan staff. Dywedodd ymhellach fod angen i staff fod yn hyderus bod y data a gasglwyd yn gyfrinachol.

**PENDERFYNWYD derbyn yr Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol ar gyfer 2021/2022.**

**GWEITHREDU: Fel y nodwyd uchod.**

## 5 RHAGLEN CRONFA FFYNIANT BRO YNYS MÔN

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd ar Raglen Cronfa Ffyniant Bro Ynys Môn i'w hystyried gan y Pwyllgor.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor fod cais a gyflwynwyd gan y Cyngor Sir wedi ei gymeradwyo ym mis Ionawr, 2023 am swm o £17m o fewn Rownd 2 y Gronfa Ffyniant Bro (LUF). O'r 529 o geisiadau a gyflwynwyd yn y DU yn ystod yr ail rownd, dywedodd mai dim ond 111 (20%) oedd yn llwyddiannus. Mae hyn yn dangos bod Ynys Môn wedi cyflwyno cais o safon uchel iawn a'i fod wedi bodloni meini prawf a gofynion manwl Cronfa Ffyniant Bro Llywodraeth y DU a mwy. Yn ystod y cyfnod asesu daeth i'r amlwg mai dim ond cais yn canolbwyntio ar fynd i'r afael ag anghenion economaidd-gymdeithasol Caergybi fyddai'n debygol o fodloni gofynion penodol Llywodraeth y DU a chael unrhyw siawns o gael ei gymeradwyo. Cyflwynwyd cyfanswm o 5 prosiect yng Nghaergybi a oedd yn cynnwys Môn Cymunedau yn Gyntaf; y Cyngor Tref; yr Eglwys yng Nghymru; Canolfan Ucheldre; a Chyngor Sir Ynys Môn - Adfywio Treftadaeth. Dywedodd fod yr amserlen ar gyfer cyflwyno yn heriol gyda'r £17m i'w wario erbyn Mawrth 2025. Roedd yr Arweinydd yn awyddus i ddiolch i staff y Gwasanaeth Datblygu Economaidd am eu gwaith caled wrth lwyddo i sicrhau'r arian grant i Gaergybi.

Rhoddodd y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd wybodaeth am y broses o baratoi cais LUF i Lywodraeth y DU. Dywedodd fod y cais yn cynnwys pecyn o brosiectau i gynyddu cyflogaeth, gwella canol y dref a phrofiad ymwelwyr, cynyddu nifer yr ymwelwyr i'r dref a'r gwariant ganddynt, darparu gofod llawr modern i ddiwallu anghenion busnes, a chynyddu mynediad at gelfyddyd, diwylliant a hamdden. Dywedodd ymhellach fod gan Gaergybi nifer o adeiladau masnachol sy'n wag a bod hynny ar gynnydd. Dywedodd y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd ymhellach mai dim ond Caergybi oedd â digon o brosiectau parod i'w cyflwyno ar gyfer cyllid LUF o fewn yr amserlen benodol. Dywedodd mai cyfrifoldeb y Cyngor Sir yw datblygu, cyflwyno, rheoli a monitro'r rhaglen ddatblygiadau ac y bydd angen i'r Cyngor a'r Ynys ddangos bodd modd cyflawni'r prosiectau'n amserol, yn gost-effeithiol ac mewn dull sy'n cydymffurfio. Bydd Bwrdd

Partneriaeth yn cael ei sefydlu i reoli'r gwaith o ddarparu'r rhaglen a fydd yn cynnwys Uwch Swyddogion y Cyngor ac Aelod Portffolio Datblygu Economaidd.

Wrth ystyried yr adroddiad bu'r Pwyllgor yn trafod y canlynol:-

- **Cyfeiriwyd at y ffaith bod costau deunyddiau adeiladu yn parhau i gynyddu. Codwyd cwestiynau ynghylch beth fyddai'n digwydd pe na bai'r cyllid o £17m yn ddigonol i gwblhau'r 5 cais llwyddiannus yng Nghaergybi? Codwyd cwestiynau hefyd ynglŷn â lle byddai'r arian yn cael ei dargedu pe bai tanwariant o fewn y prosiectau?**

  Mewn ymateb, dywedodd y Rheolwr Datblygu Economaidd fod y risg o gynnydd yng nghostau deunyddiau adeiladu wedi'i chynnwys wrth ddarparu'r prosiectau yn y rhaglen ynghyd â'r cynnydd mewn chwyddiant. Mae mesurau wrth gefn wedi'u cynnwys o fewn y rhaglen. Bydd unrhyw danwariant o fewn un prosiect yn fodd i adnoddau fod ar gael i ariannu'r bwlch o fewn prosiectau eraill. Aeth i'r afael â'r cwestiwn ynglŷn â thanwario posibl o fewn y rhaglenni a dywedodd y gallai prosiectau eraill gael eu cynnwys fel rhai wrth gefn cyn belled â'u bod yn ychwanegu gwerth i'r rhaglen.

- **Codwyd cwestiynau ynghylch ag a fydd cwmnïau lleol ar Ynys Môn yn gallu contractio ar gyfer y gwaith o ganlyniad i'r ceisiadau llwyddiannus?**

  Mewn ymateb, dywedodd y Rheolwr Datblygu Economaidd y bydd cwmnïau lleol yn cael cyfle i gontractio am y gwaith sydd ei angen o fewn y ceisiadau llwyddiannus. Ond oherwydd y raddfa byddai angen hysbysebu’r contractau ar wefan 'Gwerthwch i Gymru' a Fframwaith Adeiladu Gogledd Cymru. Dywedodd ymhellach fod gweithdy wedi'i sefydlu i ganfod diddordeb cwmnïau adeiladu. Oherwydd maint y datblygiadau dywedodd y Prif Weithredwr mai’r gobaith yw y bydd cwmnïau lleol yn llwyddo i ennill y contractau gyfer y gwaith yn hytrach nag un cwmni mawr yn contractio am y gwaith cyfan ar y 5 prosiect.

- **Codwyd cwestiynau ynglŷn â'r risgiau pe na bai'r prosiectau'n cael eu cwblhau erbyn y dyddiad cwblhau, sef Mawrth 2025?**

  Mewn ymateb, dywedodd y Rheolwr Datblygu Economaidd fod risgiau’n gysylltiedig â’r prosiectau a fyddai’n golygu na fyddent o bosibl yn cael eu cwblhau erbyn mis Mawrth 2025. Dywedodd fod y Cyngor Sir yn y broses o lunio cytundebau cyfreithiol gyda'r pum sefydliad cyflenwi gan sicrhau bod rolau, cyfrifoldebau, trefniadau llywodraethu, monitro, perfformiad, hawliadau ac ati, oll yn cael eu hamlinellu a'u cytuno ar y dechrau. Bydd y rhain yn seiliedig ar y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gan Lywodraeth y DU. Ar hyn o bryd mae Llywodraeth y DU yn aros am ymateb i fwrw ymlaen â'r prosiectau hyn. Cynigiodd y Cadeirydd fod llythyr yn cael ei anfon ar ran y Pwyllgor at Lywodraeth y DU er mwyn pwysleisio bod yr oedi cyn derbyn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn rhoi pwysau ar eu gallu i gwblhau’r prosiectau gan mai'r dyddiadau cwblhau yw Mawrth 2025. Cytunodd y Pwyllgor bod llythyr yn cael ei anfon at Lywodraeth y DU fel y nodir uchod.

- **Codwyd cwestiynau ynglŷn â strategaeth economaidd y Cyngor ar gyfer unedau diwydiannol o fewn ardaloedd gwledig?**

  Mewn ymateb, dywedodd Arweinydd y Cyngor nad oes ffrwd ariannu grantiau cyffelyb ar gael i gefnogi ardaloedd gwledig a bod y cyllid yn cael ei dargedu tuag at yr ardaloedd mwyaf poblog. Sicrhaodd y byddai pwysau parhaus yn cael ei roi ar Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru am gymorth i ardaloedd gwledig o ran datblygu economaidd.

- **Codwyd cwestiynau ynghylch i ba raddau y mae rhaglen y Gronfa Ffyniant Bro fel y'i cymeradwywyd yn galluogi'r Awdurdod Lleol i wireddu Cynllun y Cyngor ar gyfer 2023-2028?**

  Ymatebodd y Rheolwr Datblygu Economaidd drwy gadarnhau bod rhaglen y Gronfa Ffyniant Bro'n cydymffurfio ag amcanion Cynllun y Cyngor. Mae rhaglen LUF yn cynnig cyfleoedd adfywio a gobeithio y bydd yn ysbrydoli trigolion i ddysgu mwy am yr hanes a'r diwylliant sy'n deillio o'r prosiectau a gymeradwywyd. Dywedodd ymhellach fod newid hinsawdd wedi ei nodi ym mhob prosiect a bod y Rheolwr Newid Hinsawdd wedi cael mewnbwn ym mhob prosiect.

- **Cyfeiriwyd at y ffaith nad oes gan y Cyngor rôl gyflenwi uniongyrchol o fewn yr LUF. Codwyd cwestiynau ynghylch pa drefniadau sydd ar waith i reoli'r prosiect unigol er mwyn ei gyflawni'n llwyddiannus?**

  Mewn ymateb, dywedodd y Rheolwr Datblygu Economaidd fod Tîm LUF bach wedi'i sefydlu sy'n cynnwys Rheolwr Rhaglen a Chynorthwyydd Prosiect ynghyd â staff yn yr Adran Gyllid sydd â phrofiad o weithio gydag arian grant. Mae adnoddau wedi eu cynnwys o fewn y cais i gael cyngor arbenigol. Sefydlwyd fframweithiau llywodraethu gyda chyfraniad Swyddog Cyllid 151 a'r adran gyfreithiol.

- **Cyfeiriwyd at y ffaith y bydd Bwrdd Rhaglen yn cael ei greu er mwyn sicrhau bod mesurau llywodraethu cadarn ar waith. Codwyd cwestiynau ynghylch sut y bydd yn cael ei sicrhau fod gan y cynrychiolwyr ar Fwrdd y Rhaglen y sgiliau a'r profiad cywir i ymdrin â'r prosiectau?**

  Mewn ymateb, dywedodd Arweinydd y Cyngor y bydd y cynrychiolwyr ar Fwrdd y Rhaglen yn cynnwys y Prif Weithredwr, Swyddog Adran 151, Swyddog Monitro, ac Arweinydd y Cyngor ynghyd â chynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Dywedodd fod rheoli'r prosiectau yn effeithiol yn hanfodol ar gyfer llwyddiant.

- **Cyfeiriwyd at y ffaith bod canol trefi wedi bod yn dirywio yn sgil siopau tu allan i'r dref a'r ffaith bod pobl yn siopa ar-lein a bod angen i ganol trefi fod yn fywiog er mwyn i bobl ddychwelyd i siopa yng nghanol y trefi.**

Dywedodd Arweinydd y Cyngor ei bod yn bwysig newid canol trefi er mwyn mynd i'r afael ag anghenion cymdeithas. Cyfeiriodd at y cynigion prosiect a'r gobaith yw y bydd modd mynd i'r afael ag anghenion y boblogaeth iau gyda'r bwriad o sefydlu

ysgol ddawns yn hen adeilad banc yr HSBC ynghyd ag estyniad i Adeilad yr Empire ar gyfer gweithgareddau chwarae plant. Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc ei bod yn bwysig bod plant a phobl ifanc yn cael llais pan fo datblygiadau o'r fath yn cael eu cynnig. Dywedodd fod gan bob ysgol Gyngor Ysgol a'u bod yn trafod materion sy'n bwysig iddyn nhw.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Nodi'r cynnydd o ran datblygu cais i'r Gronfa Ffyniant Bro;**
- **Cydnabod rôl y Cyngor wrth ddatblygu a chyflwyno'r cais;**
- **Cefnogi'r gwaith o weithredu'r Gronfa Ffyniant Bro (yn unol â'r dyddiadau cau, allbynnau y cytunwyd arnynt ayb)**

**GWEITHREDU: fel y nodwyd uchod.**

**6 BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU CHWARTER 3: ADRODDIAD CYNNYDD 2022/2023**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Prif Weithredwr ar Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru Chwarter 3 : 2022/2023 Adroddiad Cynnydd i'w ystyried gan y Pwyllgor.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor fod adroddiadau cynnydd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn cael eu cyflwyno'n rheolaidd i'r Pwyllgor hwn. Dywedodd, fel yr adroddwyd yn y cyfarfod diwethaf, fod Fferm Sero Net Llysfasi bellach wedi'i thynnu'n ôl o'r Cynllun Twf, a bod y Bwrdd Uchelgais Economaidd wedi gwneud rhai penderfyniadau allweddol ynghylch ail-glustnodi cyllid o fewn y cynllun. Dywedodd nad yw rhai prosiectau wedi symud ymlaen fel y disgwyl a bod rhai cynlluniau busnes wedi eu cyflwyno i'r Bwrdd. Mae'r Bwrdd wedi cyfarfod gweinidogion Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i dynnu sylw at yr heriau sy'n gysylltiedig â chyflawni'r prosiectau o ran rheoleiddio a chynllunio ynghyd â'r heriau sy'n wynebu'r rhanbarth o ran y sector busnes a denu buddsoddiadau preifat.

Adroddodd y Prif Weithredwr ar y prosiectau lle gwnaed cynnydd ers yr adroddiad chwarterol diwethaf, sef:-

- Prifysgol Bangor - Canolfan Ragoriaeth Ynni Carbon Isel (Egni) a fydd yn cael ei lleoli yn ail adeilad MSparc yn y Gaerwen. Y gobaith yw y bydd y prosiect yn symud ymlaen drwy'r prosesau ffurfiol yn yr wythnosau nesaf a dylid sicrhau cyllid, gyda chaniatâd cynllunio amlinellol yn cael ei gytuno;
- Ynni Lleol Arloesol - cronfa ar gyfer prosiectau ynni gwyrdd a gymeradwywyd gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru;
- Y Morglawdd, Caergybi - Mae Llywodraeth Cymru wedi cael £20m o arian ychwanegol yn dilyn cyllideb ddiweddar San Steffan i atgyweirio'r Morglawdd yng Nghaergybi. Deellir y bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn darparu cyllid ychwanegol, tra bydd Stena Line perchnogion y Morglawdd hefyd yn cyfrannu buddsoddiad sylweddol. Bydd hyn yn caniatáu i Gais Twf Caergybi symud ymlaen.

Dywedodd y Prif Weithredwr ymhellach y bydd buddsoddiadau sylweddol yng Nghaergybi dros y blynyddoedd nesaf yn sgil prosiect Y Morglawdd, Cais Twf, prosiect Porthladd Caergybi, prosiect LUF a'r Cais am Borthladd Rhydd. Gallai'r buddsoddiad ddod i gyfanswm o £150m.

Wrth ystyried yr adroddiad bu'r Pwyllgor yn trafod y canlynol:-

- **Codwyd cwestiynau ynglŷn â'r gallu o fewn yr Adran Datblygu Economaidd i ddelio â'r holl brosiectau ar yr Ynys?**

  Mewn ymateb, dywedodd y Prif Weithredwr ei bod yn her barhaus gan fod angen adnoddau ychwanegol i gyflawni'r cynlluniau ar yr Ynys. Mae'r Pwyllgor Gwaith wedi cytuno i ddarparu adnoddau ychwanegol o fewn y Gwasanaeth Datblygu Economaidd. Mae gan y Gwasanaeth gytundeb fframwaith hefyd gyda chwmnïau arbenigol allanol h.y. Penseiri, Economegwyr, Rheolwr Prosiect.

- **Codwyd cwestiynau ynghylch a fydd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn trosglwyddo o dan y Cydbwyllgor Corfforaethol (CJC) a hefyd pwy fydd yn craffu ar waith y Cydbwyllgorau Corfforaethol?**

  Mewn ymateb, dywedodd Arweinydd y Cyngor mai'r bwriad yw y bydd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn trosglwyddo o dan y Cydbwyllgorau Corfforaethol a bydd y broses graffu bresennol yn parhau o fewn yr awdurdodau lleol. Dywedodd y bydd y broses graffu yn fwy eang yn sgil Strategaeth Trafnidiaeth Gogledd Cymru a'r Cynllun Datblygu Strategol. Ar hyn o bryd gwaith y Pwyllgor Sgriwtini yw adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Gwaith ac felly mae'r broses graffu yn cael dylanwad ar bolisïau'r Cyngor, fodd bynnag, bydd craffu ar y Cydbwyllgorau Corfforaethol yn her. Dywedodd y Prif Weithredwr ei fod yn gamarweiniol galw'r Cydbwyllgor Corfforaethol yn bwyllgor gam mai corff allanol ydyw sy'n codi ardoll ac yn ei farn ef, dylid cynnal trafodaethau rhwng Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru ynghylch a fyddai'n fanteisiol cael un Pwyllgor Sgriwtini ar draws y rhanbarth i graffu ar yr holl gyrff allanol.

- **Cyfeiriwyd o fewn yr adroddiad fod y Ganolfan Biotechnoleg Amgylcheddol wedi'i lleoli ar Stad Ddiwydiannol Mona a bod cais am leoliad arall ar gyfer y prosiect. Codwyd cwestiynau ynghylch a fydd y lleoliad arall ar yr Ynys?**

  Mewn ymateb, dywedodd y Prif Weithredwr fod trafodaethau'n cael eu cynnal. Dywedodd fod yr adeilad ym Mona wedi cael ei ariannu gan arian Ewropeaidd a'i fod bellach wedi dod i ben. Mae'r cyllid LUF a SPF sydd ar gael yn llawer llai na'r cyllid Ewropeaidd blaenorol.

**PENDERFYNWYD nodi'r cynnydd a wnaed yn ystod Chwarter 3: 2022/2023.**

**GWEITHREDU: Fel y nodwyd uchod.**

## 7 BLAEN RAGLEN WAITH

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Sgriwtini a oedd yn amlinellu Blaen Raglen Waith ddangosol y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio ar gyfer 2022/23 i'w hystyried.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Cytuno ar fersiwn gyfredol y Blaen Raglen Waith ar gyfer 2022/2023;**
- **Nodi'r cynnydd hyd yma o ran gweithredu'r Blaen Raglen Waith.**

Daeth y cyfarfod i ben am 4.10 pm

**CYNGHORYDD DYLAN REES**
**CADEIRYDD**

# CYNGOR SIR YNYS MÔN
## Templed Adroddiad Sgriwtini

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
| **Dyddiad:** | 19 Ebrill 2023 |
| **Pwnc:** | Strategaeth Gwella Canol Trefni Ynys Môn |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | Adolygu'r Strategaeth Ddrafft |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | Cyng. Dylan Rees |
| **Aelod(au) Portffolio:** | Cyng. Llinos Medi: Arweinydd a Datblygu Economaidd<br>Cyng. Nicola Roberts: Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Newid Hinsawdd |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Christian Branch, Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | Dewi G Lloyd, Rheolwr Adfywio<br>01248 752483<br>dewilloyd@ynysmon.llyw.cymru |
| **Aelodau lleol:** | Perthnasol i bob aelod |

| **1. Argymhelliad/ion** |
|---|
| Gofynnir i'r Pwyllgor:<br>**R1** Adolygu cwmpas a chynnwys y Strategaeth Ddrafft<br>**R2** Adolygu'r broses arfaethedig ar gyfer bwrw ymlaen â'r Strategaeth a'i chyflawni |

| **2. Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Arall** |
|---|
| **Cynllun y Cyngor (2023-28)** – mae'r nodau economaidd yn cynnwys cefnogi canol trefi bywiog a hyfyw ac mae'r nodau llesiant yn cyfeirio at wella'r amgylchedd adeiledig<br>**CDLIC** – polisïau'n ymwneud â chefnogi canol trefi (Polisi PS15 yn enwedig)<br>**Cynllun Rheoli Cyrchfan** – polisiau yn cefnogi cynllunio a rheoli effeithiol ar lefydd |

**3. Egwyddorion Fel Canllaw ar gyfer Sgriwtini**

**Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**

**3.1** Effaith mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Craffu'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu warantu ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:
- hirdymor
- atal
- integreiddio
- cydweithio
- cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

| 4. Cwestiynau Sgriwtini Allweddol |
|---|
| 1. Beth ydi'r diffiniad o 'dref' a 'canol tref'?<br>2. Sut fydd y Strategaeth arfaethedig yn helpu gwireddu amcanion Cynllun y Cyngor 2023-28?<br>3. Beth ydi'r prif fuddion a risciau ynghlwm a'r Strategaeth, a pa fesurau lliniaru sydd i leihau'r prif risciau?<br>4. Pa gyfleon a sialensau sydd ynghlwm a bod yn ddibynnol ar gyllid grant allanol i weithredu?<br>5. Pa mor anodd mae sicrhau cyllid preifat i adfywio trefi'r Ynys? |

## 5. Cefndir / Cyd-destun

Mae nifer o strategaethau, adroddiadau a dogfennau polisi gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, ynghyd â nifer o adolygiadau allanol, yn nodi bod angen gwella canol trefi.

Cafodd Cynllun y Cyngor ei gymeradwyo'n ddiweddar ac mae nodau'r cynllun hwnnw'n cynnwys '*gwella bywiogrwydd a hyfywedd canol trefi*' a bod *'pobl Ynys Môn a'i chymunedau yn mwynhau, yn gwarchod ac yn gwella eu hamgylchedd adeiledig a naturiol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol'.*

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn mynnu bod awdurdodau lleol yn mynd i'r afael â llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yn eu hardaloedd hwy.

Cynhaliodd Archwilio Cymru astudiaeth ar Adfywio Canol Trefi yng Nghymru a chyhoeddodd adroddiad ym mis Medi 2021 a oedd yn cynnwys nifer o argymhellion i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol. Cyflwynwyd yr adroddiad hwn, ynghyd ag ymateb y Cyngor, i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Chwefror 2022. Nodwyd fel rhan o'r broses hon bod angen i'r Cyngor ddatblygu dull strategol i wella canol trefi.

Mae rhaglen Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru yn cynnwys sawl elfen, yn cynnwys grantiau a benthyciadau cyfalaf ar gyfer gwella canol trefi. Erbyn hyn fe all hefyd gefnogi'r gwaith o baratoi strategaethau / cynlluniau creu lleoedd ar gyfer canol trefi, ac mae gofyn i'r rhain fod mewn lle yn achos unrhyw gyllid cyfalaf newydd.

Yn y gorffennol mae nifer o strategaethau / cynlluniau adfywio wedi cael eu cynhyrchu ar gyfer trefi a chanol trefi Ynys Môn, i gyd-fynd â chyfleoedd am gyllid allanol penodol gan amlaf, ac mae nifer wedi cael eu paratoi ar gyfer ardal Caergybi dros y blynyddoedd.

Erbyn hyn cynigir bod un strategaeth yn cael ei pharatoi ar gyfer holl ganol trefi'r sir, heb fod ynghlwm ag unrhyw gyllid allanol neu raglenni penodol, er mwyn adlewyrchu anghenion ehangach y sir gyfan a'i threfi a'i chanol trefi, i gyd-fynd â Chynllun newydd y Cyngor ar gyfer 2023-28.

Os caiff yr argymhellion eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith, cynhelir ymgynghoriad â'r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill i gasglu eu barn a'u sylwadau a chael eu cefnogaeth i'r strategaeth arfaethedig, gyda'r nod o gwblhau'r strategaeth a'i mabwysiadu yn ystod

| |
|---|
| 2023. Bydd y broses ymgynghori'n cael ei defnyddio i gasglu barn, sylwadau ac awgrymiadau ar welliannau i ganol trefi unigol er mwyn ein helpu i baratoi cynlluniau creu lleoedd unigol. |

| **6 – Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb** **[cynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
|---|
| **6.1 Yr effeithiau posibl ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010** |
| Heb adnabod effeithiau uniongyrchol |
| **6.2 Yr effeithiau posibl ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)** |
| Mae disgwyl i'r strategaeth wneud canol trefi yn llefydd mwy deniadfol, bywiog a hyfyw, a thrwy hynny gyfrannu at sicrhau gwelliannau cymdeithasol ac economaidd |
| **6.3 Yr effeithiau posibl ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg** |
| Bydd polisïau iaith Gymraeg y Cyngor yn berthnasol wrth gyflawni'r Strategaeth |

| **7 – Goblygiadau Ariannol** |
|---|
| Bydd angen rhywfaint o gapasiti o ran staffio ar y Cyngor yn ystod 2023-28 er mwyn rheoli a monitro'r strategaeth a chyflawni'r elfennau sydd heb gael eu cyflawni eto.<br>Mae Llywodraeth Cymru'n cynnig ariannu 70% o'r gost o baratoi cynlluniau creu lleoedd drwy grant refeniw ond mae'n rhaid i gynghorau ddod o hyd i ffordd o ariannu'r 30% sydd yn weddill.<br>Fe ddylai'r Strategaeth allu helpu'r Cyngor i ddenu cyllid grant cyfalaf allanol ychwanegol gan Lywodraeth Cymru a cylidwyr eraill, a gall hyn arbed cyllid craidd i'r Cyngor. |

| **8 – Atodiadau** |
|---|
| Strategaeth Gwella Canol Trefi 2023-28 : Fersiwn Drafft i'w chymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith fel sail i'r Ymgynghoriad |

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| Archwilio Cymru – Adroddiad Adfywio Canol Trefi yng Nghymru (Medi 2021)<br>https://www.audit.wales/publication/regenerating-town-centres-wales<br><br>Archwilio Cymru – Adroddiad Adfywio Canol Trefi yng Nghymru – Offeryn Hunanarfarnu (Medi 2021) https://www.audit.wales/system/files/2021-08/Regenerating%20Town%20Centres%20in%20Wales%20Self%20Evaluation%20Tool%20-%20English.pdf<br><br>Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio CSYM – 8 Chwefror 2022 – Eitem 7 – Archwilio Allanol: Adroddiad Adfywio Canol Trefi yng Nghymru – Argymhellion ac Ymateb (Tudalennau 87-162) https://democracy.anglesey.gov.uk/documents/g3911/Public%20reports%20pack%2008th-Feb-2022%2014.00%20Governance%20and%20Audit%20Committee.pdf?T=10&LLL=0 |

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

www.ynysmon.llyw.cymru
www.anglesey.gov.wales

# Strategaeth Gwella Canol Trefi 2023-28

## Drafft ar gyfer Ymgynghori - *diweddarwyd 11.04.2023*

*Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn y Saesneg / This document is also available in English*



# Cyflwyniad

Mae trefi a chanol trefi Ynys Môn yn ganolbwynt i weithgareddau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol yr ynys. Maent yn ardaloedd allweddol i'r economi leol, gyd thros 500 o fusnesau yng nghanol ein trefi yn cyflogi miloedd o bobl leol. Mae canol ein trefi yn bwysig mewn sawl ffordd arall hefyd - fel hybiau i wasanaethau a chyfleusterau, fel lleoedd i ymweld â nhw o ran hamdden, lletygarwch neu ddigwyddiadau, fel canolbwynt diwylliant a threftadaeth, ac fel lleoedd i fyw.

Mae canol trefi ledled Cymru a'r DU wedi gweld newidiadau sylweddol, yn cynnwys twf mewn manwerthu ar gyrion y dref, colli sawl gwasanaeth canol y dref traddodiadol megis banciau, a thwf sylweddol mewn siopa ar-lein a gynyddodd yn gyflym yn ystod y pandemig diweddar. Mae rhai canol trefi wedi llwyddo i addasu a pharhau'n brysur, ond mae eraill yn amlwg yn ei chael hi'n anodd, a rhaid iddynt ddatblygu rolau gwahanol os ydynt an ffynnu, ac mae angen syniadau a dulliau newydd o weithredu.

Mae'r strategaeth hon yn darparu fframwaith i gyflawni'r nod a osodwyd yn ein **Cynllun Cyngor**, '***Gwella hyfywedd a bywiogrwydd canol ein trefi***'. Mae hefyd yn cynorthwyo ein hamcan llesiant ***'bod pobl Ynys Môn a'i chymunedau'n mwynhau, amddiffyn a gwella eu hamgylchedd naturiol ac adeiledig ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol'.***

Mae'r ddogfen hon yn canolbwyntio ar ganol yr aneddiadau sydd â chynghorau tref, sef Caergybi, Llangefni, Amlwch, Porthaethwy a Biwmares. Mae rhai o'n pentrefi hefyd yn bwysig i economi'r Ynys, gyda nifer ohonynt yn denu llawer o ymwelwyr, a gall fod angen ystyried gwelliannau a phrosiectau tebyg yno hefyd dan gynlluniau a rhaglenni perthnasol.

Bydd gwella canol ein trefi yn gofyn am gryn ymdrech gan y Cyngor Sir a rhanddeiliaid gwella canol tref eraill yn y sectorau cyhoeddus a phreifat a'r trydydd sector. Ni fydd hyn yn hawdd o ystyried yr heriau ariannol presennol, a'r rhai sylweddol posib a fydd yn ein gwynebu yn y dyfodol. Mae cydweithio effeithiol yn hanfodol felly i ddatblygu gweledigaeth ar y cyd, a ffyrdd realistig o wella canol ein trefi'n gynyddol a'u rheoli'n effeithiol.

**Cynghorydd Llinos Medi, Arweinydd y Cyngor a Deilydd Portffolio Datblygu Economaidd**

# Pam fod arnom angen Strategaeth Gwella Canol Trefi?

.

1. **Nodi sut y bydd y Cyngor Sir a'i bartneriaid yn cydweithio i fynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu canol trefi'r Ynys, a gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd i'w gwella**
2. **Cyflawni nod y Cynllun Cyngor i wella hyfywedd a bywiogrwydd canol ein trefi.**
3. **Creu sail ar gyfer creu Cynlluniau Creu Lleoedd a bod yn gymwys i dderbyn cyllid allanol i'w cefnogi**
4. **Galluogi'r Cyngor i fodloni ei ddyletswyddau statudol dan y Ddeddf Llesiant**

Rhestrir polisiau strategol perthnasol isod – gweler yr Atodiad am fwy o wybodaeth

**RHAGLENNI ARIANNU ALLWEDDOL Ll C & Ll y DU**
Cronfa Ffyniant y DU a'r Gronfa Ffyniant Gyffredin Rhaglen Drawsnewid Trefi i Gymru (2022-25)
Rhaglenni Ariannu Sector Cyhoeddus Eraill

**DEDDFWRIAETH, NODAU A PHOLISÏAU**
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
Cymru 2040 - Y Cynllun Cenedlaethol
Polisi Cynllunio Cymru ac Adeiladu Lleoedd Gwell

**CYNLLUNIAU AWDURDOD LLEOL ALLWEDDOL**
Cynllun Cyngor Môn 2023-2028
Cynllun Rheoli Cyrchfan
Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd ar gyfer Gwynedd a Môn
Strategaethau a Pholisïau eraill gan y Cyngor Sir


**ADOLYGIADAU ALLANOL AC ARCHWILIADAU CENEDLAETHOL**
Adroddiad Archwilio Cymru ar Adfywio Canol Trefi Cymru
Adroddiad 'Small Towns – Big Issues'
Adroddiad Trefi Cymru gan Ffederasiwn y Busnesau Bach
Siarter Creu Lleoedd Cymru

# Cyd-destun Strategol

Mae’r Cylch Strategol hwn yn gosod Nod Strategol arfaethedig a pum Blaenoriaeth sy’n adlewyrchu argymhellion Archwilio Cymru i awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae hefyd yn dangos rhain yng nghyd-destun Polisiau Strategol ehangach ac egwyddorion Siarter Creu Lleoedd Cymru.

Creu Lleoedd, Cynllunio Lleoedd a Siapio Lleoedd
Darperir arweiniad ar Greu Lleoedd, Cynllunio Lleoedd a Chynlluniau Creu Lleoedd Canol Trefi gan Lywodraeth Cymru, Cymorth Cynllunio Cymru, a Chomisiwn Dylunio Cymru - gweler yr Atodiad.

Mae ‘Siapio Lleoedd’ yn ddull strategol allweddol gwahanol, sy’n cael ei ddarparu drwy bartneriaeth rhwng Medrwn Môn a’r Cyngor Sir drwy Gynghreiriau ardal cymunedol, ac sydd â’r weledigaeth ganlynol: *‘Datblygu lleoedd, cysylltu’r sectorau cyhoeddus, preifat a chymunedol i greu Ynys Môn sy’n iach a llewyrchus, lle mae pobl yn gallu ffynnu.’*



# Nod ac Amcanion Strategaeth Gwella Canol Trefi

**NOD: Galluogi Canol ein Trefi i fod yn Lleoedd Llwyddiannus ac Atyniadol**

## AMCANION

**1 - BWRIAD: Datblygu Gweledigaeth a Chynlluniau Clir i Wella a Rheoli Canol ein Trefi**

**2 - CYFRANOGIAD: Cynnwys a Chynorthwyo Cymunedau a Busnesau i ddarparu ar gyfer Canol Trefi**

**3 - GWYBODAETH: Mesur ac Adolygu Perfformiad Canol Trefi a Mentrau Cysylltiedig**

**4 - YMYRIAD: Cymryd Camau Angenrheidiol i Wella Canol ein Trefi**

**5 – ADNODDAU: Bod â Chapasiti a Chyllid Digonol i Wella a Rheoli Canol Trefi**

*YMWADIAD: Fe all cyfyngiadau cyllidebol gael effaith ar allu'r Cyngor Sir i ddarparu'r Amcanion hyn*

## Amcan 1 - **Bwriad**



| 1 | BWRIAD - Datblygu Gweledigaeth a Chynlluniau Clir i Wella a Rheoli Canol ein Trefi | | |
|---|---|---|---|
| | **Pam mae hyn yn bwysig?** | **Beth ydym am ei wneud?** | **Sut ydym am wneud hyn?** |
| 1.1 | Cyflawni nodau'r Cynllun Cyngor perthnasol ac argymhellion Archwilio Cymru | **Datblygu Gweledigaeth a Strategaeth i Wella Canol ein Trefi** | Sefydlu Gweledigaeth a Strategaeth ar y cyd i Wella Canol ein Trefi wrth gwblhau a mabwysiadu'r ddogfen hon |
| 1.2 | | **Sicrhau Dull Integredig ar Draws y Cyngor i Ganol Trefi** | Datblygu a defnyddio dull integredig i wella a rheoli canol trefi a defnyddio'r egwyddor 'canol tref yn gyntaf' wrth gydweithio ar draws gwasanaethau. |
| 1.3 | Bodloni gofynion cynlluniau Llywodraeth Cymru er mwyn derbyn arian adfywio | **Ymgysylltu gyda rhanddeiliaid ac ymgynghori â'r cyhoedd** | Ceisio a derbyn sylwadau ac awgrymiadau'r cyhoedd a rhanddeiliaid am y strategaeth ac i wella canol trefi |
| 1.4 | | **Creu Cynlluniau Lleoedd** | Gweithio gyda Chynghorau tref a rhanddeiliaid eraill i ddatblygu Cynlluniau Creu Lleoedd canol tref/tref unigol |

*YMWADIAD: Fe all cyfyngiadau cyllidebol gael effaith ar allu'r Cyngor Sir i ddarparu'r Amcanion hyn*

# Amcan 2 - Cyfranogiad



| 2 | CYFRANOGIAD - Cynnwys a Chynorthwyo Cymunedau a Busnesau i ddarparu ar gyfer Canol Trefi | | |
|---|---|---|---|
| | **Pam mae hyn yn bwysig?** | **Beth ydym am ei wneud?** | **Sut ydym am wneud hyn?** |
| **2.1** | Busnesau yw deiliaid allweddol canol ein trefi | **Annog a Chynnwys Busnesau** | Annog a chynorthwyo'r sector preifat i fuddsoddi a gweithredu busnesau llwyddiannus yng nghanol trefi ac i gyfrannu. |
| **2.2** | Nhw yw'r cyrff cyhoeddus etholedig lleol | **Annog Cynghorau tref i ddarparu'n lleol** | Annog a chynorthwyo Cynghorau tref i ddefnyddio eu hamryw o bwerau i wella, cynorthwyo a rheoli canol eu trefi |
| **2.3** | Mae yna nifer o gyrff pwysig eraill | **Annog Sefydliadau Eraill i ddarparu** | Annog a chynorthwyo sefydliadau eraill i gynnal gweithgareddau a phrosiectau sy'n gwella a chynorthwyo canol trefi |
| **2.4** | Mae cyfranogiad yn un o ofynion allweddol y Ddeddf Llesiant | **Cynnwys Rhanddeiliaid allweddol** | Cynnwys rhanddeiliaid, busnesau a chymunedau allweddol wrth gynllunio a rheoli canol trefi |

*YMWADIAD: Fe all cyfyngiadau cyllidebol gael effaith ar allu'r Cyngor Sir i ddarparu'r Amcanion hyn*

## Amcan 3 - Gwybodaeth

| 3 | GWYBODAETH – Mesur ac Adolygu Perfformiad Canol Trefi a Mentrau Cysylltiedig | | |
|---|---|---|---|
| | **Pam mae hyn yn bwysig?** | **Beth ydym am ei wneud?** | **Sut ydym am wneud hyn?** |
| **3.1** | I foderneiddio a bod yn effeithiol | **Creu 'Trefi Clyfar'** | Cynorthwyo i greu systemau digidol o 'Drefi Clyfar' a gwneud y gorau o'u defnydd a'u buddion, yn cynnwys mesur nifer yr ymwelwyr a phroffil cwsmer / ymwelydd, a llwyfannau digidol eraill |
| **3.2** | Adnabod anghenion a newid ffisegol canol trefi | **Arolwg Canol Trefi** | Cynnal arolygon canol trefi a dadansoddi / adrodd ar y rhain, yn cynnwys deiliadaeth eiddo ac eiddo blêr |
| **3.3** | Sicrhau effeithiolrwydd, effeithlonrwydd a gwerth am arian | **Gwerthuso a Gwella** | Adolygu effaith ac effeithlonrwydd mentrau canol tref, defnyddio gwersi a ddysgwyd i gynlluniau'r dyfodol, ac amlygu/ rhannu arfer dda |
| **3.4** | Mae hwn yn un o ofynion y Ddeddf Llesiant | **Hysbysu a chyfathrebu â Rhanddeiliaid** | Hysbysu a chyfathrebu â Randdeiliaid allweddol ynghylch pwysigrwydd cynlluniau canol trefi, problemau, digwyddiadau a chyfleoedd |



*YMWADIAD: Fe all cyfyngiadau cyllidebol gael effaith ar allu'r Cyngor Sir i ddarparu'r Amcanion hyn*

## Amcan 4 - Ymyriad



| 4 | YMYRIAD- Cymryd Camau Angenrheidiol i Wella Canol ein Trefi | | |
|---|---|---|---|
| | **Pam mae hyn yn bwysig?** | **Beth ydym am ei wneud?** | **Sut ydym am wneud hyn?** |
| 4.1 | Mynd i'r afael â disgwyliadau Llywodraeth Cymru a phryderon rhanddeiliaid lleol | **Mynd i'r Afael ag Adeiladau sy'n achosi Problem** | Annog perchnogion, neu orfodi os nad yw hynny'n gweithio, i gyflawni a chynorthwyo prosiectau cytunedig, a monitro / diweddaru'r Cynllun Gweithredu Gorfodi Eiddo Canol Tref, yn amodol ar adnoddau a phwerau. |
| 4.2 | | **Lleihau Eiddo Masnachol Gwag** | Annog / cynorthwyo i ailanheddu unedau masnach gwag, neu eu haddasu'n gartrefi neu at ddefnydd priodol arall, yn amodol ar adnoddau a phwerau |
| 4.3 | Mynd i'r afael ag anghenion gwella 'amgylchedd adeiledig' | **Annog gweddnewid a gwella adeiladau** | Annog a darparu arweiniad i berchnogion, a darparu benthyciadau/ grantiau gwella eiddo canol tref wedi eu targedu lle fo angen, yn amodol ar adnoddau a phwerau |
| 4.4 | Darparu blaenoriaethau'r Cynllun Cyngor | **Darparu neu Gynorthwyo Rhaglenni neu Brosiectau Pwysig** | Darparu neu gynorthwyo rhaglenni a phrosiectau canol tref cytunedig sy'n adlewyrchu'r strategaeth hon a Chynlluniau Gwneud Lleoedd cysylltiedig, yn amodol ar adnoddau |
| 4.5 | | **Annog a Chynorthwyo Prosiectau 'Gwyrdd'** | Annog, cynorthwyo neu ddarparu prosiectau Seilwaith Gwyrdd a Charbon Sero yng nghanol trefi, yn amodol ar adnoddau |

*YMWADIAD: Fe all cyfyngiadau cyllidebol gael effaith ar allu'r Cyngor Sir i ddarparu'r Amcanion hyn*

## Amcan 5 - **Adnoddau**



| 5 | ADNODDAU - Bod â Chapasiti a Chyllid Digonol i Wella Canol Trefi | | |
|---|---|---|---|
| | **Pam mae hyn yn bwysig?** | **Beth ydym am ei wneud?** | **Sut ydym am wneud hyn?** |
| 5.1 | Mae'r angen am fuddsoddiad a gweithgarwch canol tref yn mynd yn bell tu hwnt i lefel adnoddau'r Cyngor Sir ei hun | **Annog a galluogi buddsoddi preifat a masnachol** | Uchafu buddsoddiad a gweithgaredd masnachol a sector preifat yng nghanol ein trefi, gan annog defnyddiau ariannol hyfyw newydd addas |
| 5.2 | | **Gwneud y gorau o arian grant / cyhoeddus** | Annog neu wneud ceisiadau perthnasol am arian grant Llywodraeth Cymru, y DU, Loteri neu rai eraill perthnasol, yn cynnwys ymddiriedolaethau; hysbysu a dylanwadu ar bolisïau llywodraeth / cyllidwr i adlewyrchu |
| 5.3 | | **Annog a helpu trefi a chymunedau i helpu eu hunain** | Annog a galluogi Cynghorau Tref a chyrff sector cyhoeddus a thrydydd sector eraill i gyflawni, cynorthwyo a darparu gwasanaethau yng nghanol trefi |
| 5.4 | Mynd i'r afael â phryderon Archwilio Cymru ynghylch capasiti staff mewn Awdurdodau Lleol | **Cyflogi staff digonol i gynorthwyo canol trefi** | Sicrhau bod gan y Cyngor Sir nifer digonol o staff i ddarparu'r strategaeth a fframwaith creu lleoedd a gwaith cysylltiedig |

*YMWADIAD: Fe all cyfyngiadau cyllidebol gael effaith ar allu'r Cyngor Sir i ddarparu'r Amcanion hyn*

# Ymgynghori, Cymeradwyo, darparu a Llywodraethiant y Strategaeth

Fersiwn drafft ar gyfer ymgynghoriad yw hon gyda sawl rhanddeiliad a phartner allweddol gwahanol, ac fe ymgysylltir â'r rhain cyn cwblhau'r ddogfen hon.

Bydd hyn yn cynnwys ymgynghoriad cyhoeddus a phroses ymgysylltu yn ystod 2023, fydd hefyd o ddefnydd ar gyfer creu Cynlluniau Lleoedd canol trefi unigol.


Mae gan y Cynghorau Tref a sawl sefydliad arall rôl allweddol i'w chwarae yn y broses o wella a rheoli canol ein trefi, a bydd angen cydweithio effeithiol.

Bydd angen sicrhau integreiddio a chydlynu effeithiol o fewn y Cyngor Sir, a bydd angen cynnal strwythurau a threfniadau adrodd perthnasol.

Bydd rolau a chyfrifoldebau perthnasol y Cyngor Sir, y Cynghorau Tref, a'r partneriaid pwysig eraill angen bod yn eglur o fewn y cynlluniau trefi unigol.

Bydd y strategaeth terfynol angen adolygiadau cynnydd rheolaidd, gan adrodd i grwpiau swyddogion a phrosesau craffu perthnasol y Cyngor Sir.

Rhagwelir y bydd Cynlluniau Lleoedd canol trefi unigol yn cael eu paratoi gan bartneriaethau lleol yn cynnwys y Cynghorau Tref a Sir ac eraill, gyda threfniadau llywodraethu lleol, a monitro strategol ar lefel sirol.




*YMWADIAD: Fe all cyfyngiadau cyllidebol gael effaith ar allu'r Cyngor Sir i ddarparu'r uchod*

## ATODIAD - Arolwg Eiddo Masnachol Llawr Gwaelod Canol Trefi- Mai 2022

651

Cyfanswm Eiddo Masnachol

103

19%

Eiddo Gwag

27

Eiddo Blêr Iawn


| | Biwmares<br>Beaumaris | Porthaethwy<br>Menai Bridge | Llangefni | Amlwch | Caergybi<br>Holyhead |
|---|---|---|---|---|---|
| Adeiladau Masnachol<br>**Commercial Premises** | 95 | 100 | 141 | 91 | 224 |
| Mewn Defnydd<br>**Occupied** | 89 | 91 | 122 | 73 | 170 |
| Gwag<br>**Vacant** | 4 | 8 | 19 | 18 | 54 |
| Cyfradd Gwag<br>**Vacant Rate** | 4% | 8% | 13% | 20% | 24% |
| Adeliaday Bler<br>**Eyesores** | 3 | 2 | 3 | 6 | 13 |

Cyfradd eiddo gwag masnachol y DU / UK average commercial vacancy rate = circa 14.5%

## ATODIAD – Map yn dangos Trefi a Chanolfannau Pwysig Eraill

**Canol Tref CAERGYBI**
**Dynodiadau Polisi:** Ardal Twf Rhanbarthol, Canolfan Gwasanaethau Trefol, Prif Ganolfan Siopa, Canolfan Gwaith, rhaglen LUF, Ardaloedd Cadwraeth, yn agos at safleoedd cais EZ a Phorthladd Rhydd
**Poblogaeth Breswyl BUA:** **11,981**
**Amddifadedd:** UCHEL IAWN (7/8 yn yr 20% MALlC uchaf)
**Adeiladau Masnachol Canol y Dref**: 170 mewn defnydd, 54 yn wag (24%), 13 adeilad bler iawn
**Gofod Llawr Manwerthu**: 51,440msg (20,749msg mewn archfarchnadoedd)
**Awdurdodau Lleol:** Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Tref Caergybi

**AMLWCH Canol y Dref**
**Dynodiadau Polisi:** Canolfan Gwasanaethau Trefol, Canolfan Gwaith, Ardaloedd Cadwraeth,
Prif anheddiad Cynllun Gogledd Ynys Môn, yn agos at Ardal Fenter
**Poblogaeth Breswyl BUA:3,265**
**Amddifadedd:** CANOLIG (1/2 yn y 30% MALlC uchaf)
**Adeiladau Masnachol Canol y Dref**: 73 mewn defnydd, 18 yn wag (20%), 6 adeilad bler iawn
**Gofodllawr Manwerthu**: 4,900msg (1,084msg mewn archfarchnadoedd)
**Awdurdodau Lleol**: Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Tref Amlwch




**Canol Tref BIWMARES**
**Dynodiadau Polisi:** Canolfan Gwasanaethau Lleol, Safle Treftadaeth y Byd, Ardal Gadwraeth, Ardal Rheoli Cynllunio Erthygl 4, o fewn AHNE
**Poblogaeth Breswyl :1,804**
**Amddifadedd**: ISEL (0/1 yn y 50% uchaf MALlC) ond rhai cymdogaethau efo cyfartaledd incwm isel iawn
**Adeiladau Masnachol Canol y Dref**: 95 mewn defnydd, 4 yn wag (4%), 3 adeilad bler iawn
**Gofod Llawr Manwerthu**: 5,280msg (0 msg mewn archfarchnadoedd)
**Awdurdodau Lleol**: Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Tref Biwmares

**Canol Tref LLANGEFNI**
**Dynodiadau Polisi:** Canolfan Gwasanaethau Trefol, Prif Ganolfan Siopa, Canolfan Gwaith,
Ardal Gadwraeth, yn agos at EZ
**Poblogaeth Breswyl BUA:5,226**
**Amddifadedd**: CANOLIG (1/3 yn yr 20% MALlC uchaf)
**Adeiladau Masnachol Canol y Dref**: 122 mewn defnydd, 19 yn wag (13%), 3 adeilad bler iawn
**Gofod Llawr Manwerthu** : 18,950msg (8,245msg mewn archfarchnadoedd)
**Awdurdodau Lleol**: Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Tref Llangefni

AGORIAD
● Trefi / Canol Trefi
■ Canolfannau Pwysig Eraill

**Canol Tref PORTHAETHWY**
**Dynodiadau Polisi:** Canolfan Gwasanaethau Lleol, Ardal Gadwraeth
**Poblogaeth Breswyl BUA**:3,376
**Amddifadedd**:ISEL(0/2 yn 50% uchaf MALlC) ond rhai cymdogaethaU efo cyfartaledd incwm isel iawn
**Adeiladau Masnachol Canol y Dref**: 91 mewn defnydd, 8 yn wag (8%), 2 adeilad bler iawn
**Gofod Llawr Manwerthu**: 6,890msg (1,938msg mewn archfarchnadoedd)
**Awdurdodau Lleol**: Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Tref Porthaethwy

# ATODIAD – Dogfennau y cyfeirir atynt yn y Strategaeth

**Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig :** nod 11 ar gyfer '*Dinasoedd a Chymunedau Cynaliadwy*' yw gwneud dinasoedd ac aneddiadau dynol yn gynhwysol, diogel, gwydn a chynaliadwy.

**Ffyniant y Deyrnas Unedig** : Mae strategaeth Ffyniant Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cyfeirio'n benodol at fuddsoddi mewn '...*adfywio canol trefi a'r stryd fawr*...'.

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol :** mae gofyn i awdurdodau lleol fynd i'r afael â llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol eu hardaloedd, a gosodir saith nod llesiant.

**Cymru'r Dyfodol 2040 – Y Cynllun Cenedlaethol :** yn gosod egwyddor '*Canol Trefi yn Gyntaf*' y dylai '*cyfleusterau masnachol, manwerthu, addysg, iechyd, hamdden a gwasanaethau cyhoeddus arwyddocaol newydd gael eu lleoli o fewn canol trefi a dinasoedd*', ac mae'n dynodi Caergybi fel Ardal Dwf Ranbarthol.

**Polisi Cynllunio Cymru (PPW11) :** mae'n gosod polisïau cynllunio defnydd tir cenedlaethol, wedi'u hategu gan nodiadau cyngor technegol, gyda TAN4 ar gyfer datblygiad manwerthu a masnachol.

**Adeiladu Lleoedd Gwell (2020)** : mae'n gosod ymrwymiadau Llywodraeth Cymru ar gyfer y system gynllunio i gyflawni lleoedd gwell, creu lleoedd, deilliannau o ansawdd a dyluniad da. Mae'r ddogfen hon yn nodi nifer o Ddeilliannau Creu Lleoedd Cynaliadwy Cenedlaethol.



**Trawsnewid Trefi (2022-25):** rhaglen Llywodraeth Cymru i wella canol trefi, yn cynnwys grantiau a benthyciadau, gorfodaeth, ymchwil a data, polisïau, a mentrau eraill. Mae peth o'r arian hwn yn amodol ar gael Cynlluniau Creu lleoedd ar waith ar gyfer aneddiadau perthnasol.

**Small Towns – Big Issues (2021)** - mae'n pwysleisio pwysigrwydd rhannu gweledigaeth, cynlluniau buddsoddi sy'n alinio polisi gydag anghenion y farchnad, rhanddeiliaid cymwys, a thimau adfywio penderfynol.

**Gweledigaeth ar gyfer Trefi Cymru** – adroddiad a baratowyd ar gyfer Ffederasiwn Busnesau Bach yn gosod yr heriau mwyaf a'r cyfleoedd realistig i ganol trefi

**Siarter Creu Lleoedd Cymru** : mae'n amlinellu'r chwe egwyddor ar gyfer creu a chynnal lleoedd

**Adfywio Canol Trefi yng Nghymru (2021) :** adolygiad o anghenion canol trefi gan Archwilio Cymru gydag argymhellion i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol, yn cynnwys adnodd hunanasesu sy'n adnabod 38 o gamau / gweithgareddau maent yn eu hystyried fel rhai y dylai siroedd eu cynnal, wedi eu categoreiddio dan y 4 maes canlynol : Bwriad, Cyfranogiad, Hysbysu, Ymyriad.

**Cynllun Adfywio Gogledd Cymru (2019)** : fframwaith a baratowyd ar y cyd rhwng chwe awdurdod lleol.

**Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd ar gyfer Gwynedd a Môn :** mae'n nodi hierarchaeth aneddiad a manwerthu clir, a'r angen i hyrwyddo hyfywedd a bywiogrwydd canol trefi.

**Cynllun Cyngor Ynys Môn 2023-2028 :** mae'n cynnwys cyfeiriad penodol at 'Wella hyfywedd a bywiogrwydd canol trefi' Ynys Môn. Nod y cynllun hefyd yw gweld 'pobl Ynys Môn a'i chymunedau'n mwynhau, gwarchod a gwella eu hamgylchedd naturiol ac adeiledig ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol' a chael 'cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel.'

## ATODIAD – Canllaw Llywodraeth Cymru ar Baratoi Cynlluniau Lleoedd ar gyfer Canol Trefi

Rhagofyniad o gyllid gweithgaredd creu lleoedd drwy Drawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru yw bod cynlluniau lleoedd priodol ar waith neu'n cael eu datblygu. Dylai'r cynlluniau hyn gael eu dylunio yn unol â'r 6 egwyddor o'r siarter Creu Lleoedd: Comisiwn Dylunio Cymru https://dcfw.org/placemaking/placemaking-charter/ **:** Pobl a'r Gymuned, Symud, Y Parth Cyhoeddus, Lleoliad, Defnyddiau Cymysg, Hunaniaeth. Dylid trafod eglurdeb bellach gofynion y Cynllun Creu Lleoedd gyda'ch Rheolwr Adfywio priodol

Dylai cynlluniau lleoedd ystyried agwedd holistig o ofynion trefi a dinasoedd ac felly dylent gynnwys yr holl ymyriadau ariannol presennol ac arfaethedig gan Awdurdodau lleol, meysydd portffolio gwahanol Llywodraeth Cymru a datblygiadau allweddol sector preifat a chyhoeddus. Ni ddylai cynlluniau creu lleoedd ganolbwyntio ar arian Adfywio Llywodraeth Cymru'n unig a dylent gynnwys pob ffynhonnell ariannu megis tai, twristiaeth ac iechyd fel enghreifftiau i ddangos cyfanrwydd buddsoddiad mewn aneddiadau. Dylai Cynlluniau lleoedd gynnwys o leiaf:-

- Map gyda therfyn coch yn nodi ardal yr annedd. Bydd angen hyn ar gyfer pob annedd. Dylai ardal yr ymyriad gael ei chyfyngu i ganol y dref greiddiol gyda manylion digonol yn cynnwys strydoedd ac adeiladau/nodweddion tirnod. Ail fap yn dangos yr ardal ar ymylon y dref, yn nodi'r gweithgaredd datblygu a chyfleoedd ehangach.
- Manylion y grwpiau, megis BID a/neu Gynghorau Cymuned a thref sy'n gweithredu yn yr ardal ar hyn o bryd. Cadwch gofnod o'r ymgynghoriad gyda'r grwpiau hyn a grwpiau eraill megis aelodau lleol.
- Tystiolaeth o ymgysylltiad ac ymgynghoriad â grwpiau defnyddwyr canol tref a nodwyd megis pobl ifanc, pobl hŷn, grwpiau o leiafrifoedd ethnig neu grwpiau anabledd;
- Aliniad gyda chynlluniau gwella economi ehangach, strategaethau rhanbarthol a chynlluniau buddsoddi Llywodraeth Cymru eraill megis cludiant a theithio actif;
- Nodi'r problemau sydd angen mynd i'r afael â nhw sy'n cyfyngu ar ganol trefi rhag bod mor llwyddiannus â phosibl a/neu gyfleoedd i'w harchwilio megis seilwaith gwyrdd, tai, iechyd, y parth cyhoeddus, siopau gwag, a gwelliannau masnachol. Bydd deilliant y gwaith hwn yn cael ei rannu ar draws meysydd portffolio Llywodraeth Cymru a phartneriaid allweddol megis Cyfoeth Naturiol Cymru;
- Datblygu Strategaeth Ymgysylltu gymunedol fel rhan o'r cynllun;
- Ystyriaeth o'r bygythiadau ehangach a ddaw o ganlyniad i siopa ar gyrion y dref, newid arferion prynwyr, TAN15, ffosffadau mewn dŵr yn cael effaith ar Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (SAC) ac ystyriaethau Newid Hinsawdd ehangach.
- Rhannu gweledigaeth gyffredin ar gyfer datblygu canol y dref drwy ystyried y problemau a nodwyd ac adborth o'r broses ymgynghori; gyda Chynllun Gweithredu cytunedig.
- Bydd cynlluniau Awdurdodau Lleol yn gosod sylfaen ar gyfer canol y dref a ddiffiniwyd gan ddefnyddio technolegau digidol sydd ar gael er mwyn sefydlu metrigau isafswm nifer yr ymwelwyr a'u hamser aros ar ddechrau'r cyfnod ariannu tair blynedd;
- Adolygu'n rheolaidd a gwerthuso'r gallu i ddarparu a'r gweithredoedd a nodwyd yn y cynllun gweithredu gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid, drwy ymgynghoriad parhaus.
- Dysgu ac adborth rhanbarthol a Chymru gyfan parhaus.

Bydd gwerthuso'n elfen allweddol o ddarparu'r Trawsnewid Trefi. Er mwyn arddangos effaith ariannu Creu Lleoedd bydd disgwyl i Awdurdodau Lleol gynhyrchu adroddiad diweddaru blynyddol (yn cynnwys astudiaethau achos prosiect) i ddangos y prosiectau a ddarparwyd a'u heffaith ar ganol trefi a flaenoriaethwyd. Ar ddiwedd y cylch ariannu tair blynedd bydd disgwyl i'r holl Awdurdodau Lleol sy'n derbyn arian gomisiynu gwerthusiad annibynnol o ddarparu Trawsnewid Trefi sy'n cwmpasu'r holl brosiectau Strategol a Chreu Lleoedd. Lle mae Trawsnewid Trefi wedi cael ei osod i grŵp neu glwstwr o drefi llai gellir comisiynu un adolygiad annibynnol i gwmpasu nifer o ganol trefi.

This page is intentionally left blank

# CYNGOR SIR YNYS MÔN
## Templed Adroddiad Sgriwtini

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **Dyddiad:** | **19 Ebrill, 2023** |
| **Pwnc:** | **Porthladdoedd Rhydd Ynys Môn** |
| **Diben yr Adroddiad:** | **Adrodd ar y cynnig llwyddiannus a gyflwynwyd ar gyfer Porthladd Rhydd gan y Cyngor Sir a Stena Line** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Cynghorydd Dylan Rees** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Cynghorydd Llinos Medi – Arweinydd ac Aelod Portffolio Datblygiad Economaidd** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Christian Branch – Rheoleiddio a Datblygiad Economaidd** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Tudur Jones**<br>**2146**<br>**tudurjones@anglesey.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Yn berthnasol i'r holl Aelodau Etholedig** |

o25

| **1 - Argymhelliad/Argymhellion** |
|---|
| Bod y Pwyllgor Sgriwtini…<br>1. Yn cydnabod rôl y Cyngor o ran datblygu a chyflwyno'r cynnig llwyddiannus<br>2. Nodi'r camau nesaf yn natblygiad achos busnes Porthladd Rhydd (cyn cyflwyno i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru) |

| **2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill** |
|---|
| Mae cynnig Porthladd Rhydd Ynys Môn wedi'i ddatblygu yn erbyn cyd-destun ein blaenoriaethau corfforaethol gyda pholisïau a strategaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol lleol eraill yn llywio'r cynnig (h.y. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Fframwaith Economaidd Rhanbarthol ar gyfer Gogledd Cymru, Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru a Phapur Gwyn Ffyniant Bro).<br><br>Bwriad cynnig Porthladd Rhydd Ynys Môn yw ceisio dod a ffyniant i Ynys Môn a Gogledd Cymru. Bydd yn adeiladu ar y Rhaglen Ynys Ynni, sy'n gydweithrediad cyffrous rhwng rhanddeiliaid cyhoeddus, preifat a rhanddeiliaid y trydydd sector. Gweledigaeth y Rhaglen Ynys Ynni yw 'creu cyfle cwbl unigryw i greu swyddi, twf economaidd a ffyniant drwy fanteisio ar nifer o brosiectau trawsnewidiol ar Ynys Môn'. Mae hefyd yn cyd-fynd â nodau Strategaeth Twf Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.<br><br>Porthladd Caergybi yw'r porth rhyngwladol i Gymru – ac mae'n gysylltiad hanesyddol rhwng y DU ac Iwerddon. Mae gwerth a phwysigrwydd economaidd-gymdeithasol y Porth i Ynys Môn a gogledd Cymru yn ddrudfawr. Dyma'r ail borthladd Ro-Ro (*roll on roll off)* mwyaf yn y DU, sy'n gwasanaethu oddeutu 1,500,000 o deithwyr bob blwyddyn, oddeutu 4,000,000 tunnell o gludiant llwythi, a 370,000 o symudiadau nwyddau. Yn 2021, gostyngodd symudiadau nwyddau drwy borthladd Caergybi 2.1 miliwn tunnell (35.9%). |

Felly, mae'r Porthladd yn cefnogi – yn uniongyrchol ac anuniongyrchol – cannoedd o swyddi yng Nghaergybi ac ardal ehangach Ynys Môn.

Strategaethau Lleol:

- Cynllun Llesiant Gwynedd ac Ynys Môn (Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn, 2018)
- Cynllun y Cyngor 2023 -2028 (Cyngor Sir Ynys Môn, 2023)
- Cynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Sir Ynys Môn 2020 –2024 (Cyngor Sir Ynys Môn, 2020)
- Cynllun Adfywio Economaidd Gogledd Ynys Môn (Cyngor Sir Ynys Môn, 2019)
- Cynllun Datblygu ar y Cyd Lleol Gwynedd a Môn 2011 –2026 (Cyngor Sir Ynys Môn, 2017)
- Cynllun tuag at Carbon Sero Net Cyngor Sir Ynys Môn 2022-2025 (Cyngor Sir Ynys Môn, 2022)

**3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgriwtini**

1. Yr effaith y bydd y mater yn ei gael ar unigolion a chymunedau [canolbwyntio ar gwsmeriaid/dinasyddion]
2. Edrych ar unrhyw risgiau [ffocws ar risg]
3. Sgrwitini yn cymryd rôl monitro perfformiad neu sicrhau ansawdd [ffocws ar berfformiad ac ansawdd]
4. Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:
   - Tymor hir
   - Ataliol
   - Integreiddio
   - Cydweithio
   - Cyfraniad

[ffocws ar lesiant]

**4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol**

1. Mae'r cynllun prosiect yn rhagweld creu hyd at 13,000 o swyddi newydd dros gyfnod o 15 mlynedd. Pa drefniadau fydd mewn lle i sicrhau bod y swyddi yn rhai o ansawdd uchel a bod gan drigolion Mon y sgiliau i fanteisio ar y cyfleon?
2. Sut fyddwch chi'n sicrhau bod y prosiect yn alinio gyda, ac yn cyfrannu tuag at y Rhaglen Ynys Ynni a Chynllun y Cyngor 2023-28?
3. Mae rhai o brif risgiau strategol y cais wedi cael eu nodi yn yr adroddiad. Sut fydd yr Awdurdod yn rheoli a lliniaru'r risgiau hyn?

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

**a. Cyflwyniad I Borthladdoedd Rhydd**

Bu i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru wahodd cynigwyr i gyflwyno cynlluniau ar gyfer Porthladdoedd Rhydd yng Nghymru ar ddiwedd 2022 (https://www.gov.uk/freeport).

Mae Porthladdoedd Rhydd yn ardaloedd dynodedig lle mae amrywiaeth o gymelliadau economaidd ar gael i ysgogi'r economi leol ac annog twf a buddsoddiad. Mae'r rhain yn

cynnwys cymelliadau a rheoliadau llacio sy'n gysylltiedig â threth, tollau, cyfraddau busnes, cynllunio, adfywio a masnach a chymorth buddsoddi. Ni fydd nwyddau sy'n cyrraedd y Porthladd Rhydd yn destun trefn treth a thollau arferol y DU.

Gan mai ynys yw Ynys Môn, ceir sail resymegol ddaearyddol ac economaidd naturiol a chlir sy'n darparu sylfaen unigryw ar gyfer cynnig y Porthladd Rhydd. Mae Caergybi wedi'i chydnabod fel tref Porthladd ers yr 19eg Ganrif, ac ni ellir tanseilio ei phwysigrwydd.
Mae Ynys Môn wedi integreiddio'n dda yn economi gogledd Cymru, ond oherwydd ei chyd-destun fel Ynys, mae'n unigryw yn economaidd a chymdeithasol. Mae data'r Cyfrifiad yn dangos fod (yn 2011) 92% o swyddi Ynys Môn wedi cael eu llenwi gan drigolion yr ynys, gyda llai na 2,000 o swyddi (8%) yn cael eu llenwi gan bobl a oedd yn cymudo i'r Ynys. Yn y cyfamser, mae 8,000 o drigolion (27% o'r rheiny mewn gwaith) yn cymudo oddi ar yr ynys. Mae ganddi gyfradd uchel o siaradwyr Cymraeg (62% o gymharu â 30% yng Nghymru) er bod diffyg swyddi cyflog uchel ac o ansawdd yn golygu bod mwy a mwy o siaradwyr Cymraeg y symud oddi gartref er mwyn gwaith (40% o bobl 16 i 24 oed sy'n siarad Cymraeg o gymharu â 22% rhwng 55 a 64 oed).

Mae gweledigaeth y Porthladd Rhydd yn adeiladu ar ddaearyddiaeth unigryw yr Ynys; bydd yn cefnogi twf masnach drwy Borthladd Caergybi, adfer y pont tir a hybu Rhaglen Ynys Ynni yr ynys a sicrhau bod y buddion yn cyrraedd pob cornel o Gaergybi, Ynys Môn a gweddill gogledd Cymru.

Agorwyd y broses bidio ar 1 Medi ac fe'i chaewyd ar 24 Tachwedd 2022.

Bydd £1m o refeniw a £25m o gyfalaf ar gael gan y Llywodraeth er mwyn galluogi'r gwaith o weithredu a darparu'r Porthladd Rhydd.

**b. Datblygu'r Cynnig a Gweithio mewn Partneriaeth**

Yn yr un modd â chyflwyniad y Gronfa Ffyniant Bro, ni ellir diystyru maint a chymhlethdod y gwaith a wnaed i ddatblygu'r cais o fewn amserlen hynod heriol. Arweiniodd hyn at gydweithio dwys a sylweddol gyda Stena Line, gan adeiladu ar y berthynas flaenorol gyda nhw.

Roedd y Prosbectws Cynigion yn debyg i'r un ar gyfer Lloegr a arweiniodd at ddyfarnu statws Porthladd Rhydd i wyth ymgeisydd yn 2021 (gan gynnwys Porthladd Lerpwl, felly'n gystadleuydd uniongyrchol i Gaergybi). Fodd bynnag, mae cyfranogiad Llywodraeth Cymru yn y broses o wneud penderfyniadau wedi ehangu'r meini prawf asesu i gynnwys polisïau blaenoriaeth megis Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ei pholisïau Sero Net yn ogystal â safonau amgylcheddol a llafur.

Bu i'r ddwy Lywodraeth fynegi o'r dechrau eu bod yn agored i'r posibilrwydd o ganiatáu mwy nag un Porthladd Rhydd yng Nghymru pe byddent yn derbyn achos busnes digonol a chymhellol.

Gellid cyflwyno ceisiadau dim ond drwy goalisiwn y mae'n rhaid iddo gynnwys gweithredwr y porthladd (Stena Line) a'r awdurdod lleol sy'n llety (y Cyngor Sir). Mae partneriaid eraill o fewn cynnig Porthladd Rhydd Ynys Môn yn cynnwys busnesau lleol a rhyngwladol megis Rolls Royce, BP, Morlais ac ati.; sefydliadau academaidd, MSParc, Prifysgol Bangor, Grŵp

Llandrillo Menai; Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a llu o randdeiliaid a phartneriaid eraill.

Roedd yn rhaid i ymgeiswyr gynnwys o leiaf un safle tollau. Mae hwn yn fan (a elwir hefyd yn ‘free-zone’) yn barth tollau diogel, caeëdig lle nad yw rhai o’r rheolau treth a thollau arferol yn berthnasol.

Roedd yn rhaid i gynigwyr hefyd ddynodi safleoedd treth er mwyn elwa o’r cynnig treth. Pan fydd achos economaidd yn caniatáu, gall ymgeiswyr nodi hyd at dair ardal unigol fel lleoliad y safle treth. Mae’n rhaid i’r rhain fod yn:

- Annatblygedig.
- Safle unigol neu amryw o safleoedd hyd at 600ha (gyda lleiafswm o 20ha yn hytrach nag amgylchiadau eithriadol).
- Perchnogaeth lluosog yn bosibl.
- Mewn ardaloedd lle mae Cynnyrch Domestig Gros y DU fesul pen yn is na’r cyfartaledd cyffredinol a lle mae cyfraddau diweithdra yn uwch na chyfartaledd y DU.

Roedd tri phrif amcan y mae’n rhaid i unrhyw gyflwyniad allu eu dangos:

1. Hyrwyddo adfywio a chreu swyddi o ansawdd dda – dyma oedd y prif faen prawf;
2. Sefydlu'r Porthladd Rhydd fel canolbwynt cenedlaethol ar gyfer masnachu a buddsoddi byd-eang ar draws yr economi;
3. Meithrin amgylchedd arloesol.

### c. Cynnig Ynys Môn

Mae’n bwysig nodi fod cynnig Porthladdoedd Rhydd Ynys Môn yn canolbwyntio’n benodol ar:

- Gyfrannu tuag at net sero a datgarboneiddio
- Darparu amodau gweithio teg a diogelu ansawdd yr amgylchedd
- Ymdrin â heriau lleol

Oherwydd hyn, roedd yn bwysig dangos y gallai Porthladd Rhydd Caergybi gyflawni disgwyliadau’r Llywodraeth – yn enwedig adfywio a chreu swyddi o ansawdd arbennig, a amcangyfrififir y bydd rhwng 3,500 – 13,000 o gyfleoedd gwaith newydd yn cael eu creu.

O fewn y cynnig, cafodd y safleoedd canlynol eu hadnabod fel y safleoedd tollau a threth:

1. Porthladd Caergybi – eiddo Stena Line, 125ha+
2. Hen safle Anglesey Aluminium – eiddo Stena Line; safle tollau, 95ha
3. Parc Cybi – eiddo Llywodraeth Cymru a Conygar; safle tollau, 32ha
4. MSParc – eiddo Prifysgol Bangor a’r Cyngor; safle treth, 21ha
5. Rhosgoch – eiddo Conygar; safle treth, 82ha

Y safleoedd tollau allweddol yng nghynnig Porthladd Rhydd Ynys Môn yw safleoedd cyfunol Anglesey Aluminium a Pharc Cybi, sy'n ffurfio Parth Ffyniant Ynys Môn. Bydd y rhan fwyaf o swyddi a fydd yn cael eu creu ar Ynys Môn wedi’u cynnwys yn y parth hwn.

Disgwylir mai’r sector gweithgynhyrchu neu’r sectorau trafnidiaeth a storio fydd y diwydiannau craidd i’w lleoli yma. O fewn y rhain, mae lle i ystod eang o fusnesau, yn

enwedig y rhai sydd â chadwyni cyflenwi sy'n gysylltiedig â Gweledigaeth ehangach Rhaglen Ynys Ynni; gofyn am fewnbynnau rhyngwladol uwch na'r cyfartaledd; llwyfannau allforio sylweddol a chysylltiadau masnach â'r UE; gofynion dosbarthu mawr. Mae'r rhain wedi'u hadnabod fel cwmnïau fydd yn cael budd rhesymegol o'u lleoli ym Mharth Ffyniant Ynys Môn.

Y buddion a ragwelir fydd:

- Mynediad at allforio rhatach
- Cadwyni cyflenwi byrrach.
- Prosesau cynhyrchu mwy effeithlon yn gyffredinol (o amser, costau a safbwyntiau amgylcheddol).
- Trydydd parti yn cyflwyno buddion drwy brisiau is ac allanoldebau negyddol llai.

Disgwylir hefyd y bydd masnach digidol ac adfer coridorau'r pont tir yn cyfrannu at fwy o fasnach rhwng Prydain ac Iwerddon, ac yn hwyluso masnach rhwng y DU a'r UE gan adfer y gostyngiad o 20% mewn masnach sy'n mynd drwy Borthladd Caergybi.

Ynghyd â'r cynnig Porthladd Rhydd Ynys Môn, cyflwynwyd cynigion gan y Porthladd Rhydd Celtaidd sydd wedi'i leoli o amgylch porthladdoedd Port Talbot ac Aberdaugleddau, yn sir Castell-nedd Port Talbot a Sir Benfro, a thrydydd cynnig, yn seiliedig o amgylch Casnewydd a Maes Awyr Caerdydd.

**d. Penderfyniad ar y Porthladdoedd Rhydd**

Ar 23 Mawrth 2023, rhoddwyd gwybod i'r Cyngor Sir ei fod wedi bod yn llwyddiannus yn ei gais Porthladd Rhydd, yn amodol ar gwblhau'r achos busnes manwl. Gwnaed y cyhoeddiad gan Rishi Sunak y Prif Weinidog a Mark Drakeford, Prif Weinidog Cymur, yn ystod ymweliad â Phorthladd Caergybi. Mae hyn wedi arwain at ddiddordeb sylweddol – ar raddfa ryngwladol – i Gaergybi ac Ynys Môn gan gynyddu proffil ac amlygrwydd y cais Porthladd Rhydd llwyddiannus ond hefyd yr ardal yn gyffredinol. Mae hyn wedi bod yn hwb enfawr o ran hygrededd y cais gyda chwmnïau cenedlaethol a rhyngwladol sydd â diddordeb mewn sefydlu gweithrediadau yma. Ni ellir diystyru pwysigrwydd y cyhoeddiad sy'n cael ei wneud ar y cyd gan y Prif Weinidog a Phrif Weinidog Cymru.

**e. Rôl y Cyngor Sir yn y cam nesaf o ddarparu'r Porthladdoedd Rhydd**

Cam nesaf y broses yw cwblhau'r achos busnes manwl. Mae tair elfen i hyn, ac mae angen cymeradwyaeth y Llywodraeth ar gyfer pob un:

1. Achosion Busnes Amlinellol a Llawn (OBC a FBC) – 'y broses Achos Busnes'
2. Safleoedd treth arfaethedig – 'y broses Safle Trethi'
3. Safleoedd tollau arfaethedig – 'proses Safle'r Tollau'

Bydd y Cyngor hefyd yn gweithio i sefydlu egwyddorion craidd ar gyfer cydweithio agos gyda Stena Line. Bydd hon yn ffordd newydd o weithio i'r ddau sefydliad ac yn berthynas hirdymor sy'n adeiladu ar y berthynas bresennol. Bydd pwysigrwydd ffurfioli strwythurau llywodraethu priodol hefyd yn hollbwysig yn enwedig wrth sicrhau a gwarchod y rhwymedigaethau a'r cyfrifoldebau statudol sydd gan y Cyngor.

Bydd angen cyflawni gwaith sylweddol o fewn amserlen heriol, a bydd y Llywodraeth yn darparu’r cyllid refeniw perthnasol i gwblhau’r gwaith hwn.

Gan y bydd y cyllid yn cael ei weinyddu i'r Cyngor Sir, bydd gennym ni – fel y Corff Atebol – gyfrifoldeb llawn i sicrhau bod yr arian yn cael ei wario mewn modd sy'n cydymffurfio'n llawn â phrynu'r sector cyhoeddus a hefyd monitro ac adrodd ar yr holl wariant cysylltiedig. Bydd y cyfrifoldebau hefyd yn cynnwys cydymffurfio â gofynion Llywodraeth Cymru a'r DU ar fonitro a gwerthuso (megis casglu data a darparu ar gyfer swyddi newydd, busnesau a grëwyd, a denu buddsoddiad preifat) ac ati. Bydd angen i'r Cyngor ddynodi Uwch Swyddog Cyfrifol a chael cymeradwyaeth ar gyfer yr holl achosion busnes a’r holl wariant gan ein Swyddog Adran 151.

Bydd gan y Cyngor Sir a Stena Line gyfrifoldeb cyfartal am yr Achos Busnes Amlinellol a’r cyflwyniad cysylltiedig, ond bydd angen mewnbwn sylweddol gan Stena a’u hymgynghorwyr mewn meysydd penodol, a bydd angen iddynt arwain ar ddatblygu rhai ymyriadau a chynhyrchu gwybodaeth berthnasol ar gyfer yr Achos Busnes Amlinellol.

Bydd angen cynigion manwl ar gyfer y canlynol:

2. Safleoedd treth a thollau (y Cyngor a Stena)
3. Defnydd o'r cyllid sbarduno - £1m o refeniw a £25m o gyfalaf (Cyngor a Stena)
4. Nodi mentrau cyflenwol (Cyngor a Stena)
5. Cytuno ar fframweithiau llywodraethu manwl (Cyngor a Stena)
6. Cynllunio a chadw ardrethi busnes (Cyngor)
7. Arloesi (Cyngor, Stena a Phartneriaid)
8. Rheoliad (Cyngor)
9. Mentrau Net Zero (Cyngor, Stena a Phartneriaid)

Mae’r Cyngor Sir yn ystyried ei opsiynau i ymuno â chytundeb cyfreithiol unigryw rhwng y Cyngor a Stena Line er mwyn rheoli’r datblygiad a’r ddarpariaeth ar gyfer y Porthladd Rhydd.

### f. Risgiau sy’n Gysylltiedig a Phorthladdoedd Rhydd Ynys Môn

Mae’n cydnabod bod angen eglurdeb a sicrwydd pellach gan y Llywodraeth wrth i ni fynd drwy’r cam achos busnes. Mae rhai risgiau fel a ganlyn:

1. Rheoli risg; rheoli rhanddeiliaid a rheoli disgwyliadau.
2. Rheoli, dyrannu a chadw at reoli cymhorthdal o'r cyllid sbarduno sydd werth £26m.
3. Adnoddau a chapasiti o fewn y Cyngor i arwain, rheoli a chyflawni datblygiad yr achos busnes o fewn yr amserlen.
4. Gwarchod rhwymedigaethau statudol y Cyngor.
5. Yr angen am lywodraethu cadarn, a rôl hirdymor y Cyngor a'r adnoddau sydd eu hangen i'w gyflawni mewn modd sy'n cydymffurfio ac yn effeithiol.
6. Effeithiau posibl y Porthladd Rhydd ar gymunedau lleol, yr iaith Gymraeg a diwylliant
7. Y Cyngor – a'i bartneriaid – ddim yn manteisio'n llawn ar y cyfle a ddaw yn sgil sicrhau statws Porthladd Rhydd Ynys Môn.

| |
|---|
| Ni ellir diystyru pwysigrwydd bod mewn partneriaeth â Stena Line wrth ddatblygu a darparu'r statws Porthladd Rhydd yn y pen draw. Bydd eu harbenigedd, eu gwybodaeth a'u hymrwymiad hyd yn hyn yn hollbwysig i liniaru rhai o'r risgiau a nodir uchod. |
| |

| **6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb** **[gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
|---|
| **6.1 Effeithiau posibl ar grwpiau gwarchodedig dan Ddeddf Gydraddoldeb 2010** |
| Dim – bydd ceisiadau gan ac ar gyfer grwpiau gwarchodedig dan Ddeddf Gydraddoldeb 2010 yn cael eu delio yn yr un modd, a gellid targedu cyllid tuag at y grwpiau hynny. |
| **6.2 Effeithiau posibl ar y rheiny sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)** |
| Cadarnhaol – gellid targedu'r cyllid hwn tuag at y rheiny sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol. |
| **6.3 Effeithiau posibl i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a thrin y Gymraeg yn gydradd â'r Saesneg** |
| Cadarnhaol – drwy greu cyfleoedd gwaith yn yr ardal, gobeithir y bydd mwy o siaradwyr Cymraeg yn gallu elwa o hyn ac aros yn lleol. |
| **7 – Goblygiadau Ariannol** |
| Niwtral – nid oes unrhyw oblygiadau ariannol i'r Cyngor Sir gan fod cost datblygu'r cynnig a goblygiadau staffio wedi'u talu a byddant yn cael eu talu drwy ffynonellau allanol. |

| **8 – Atodiadau** |
|---|
| Atodiad A – Dyfyniad o Holi ac Ateb y Daily Post |

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| Adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith, 24th Hydref 2022, Cynnig Porthladd Rhydd Caergybi |

**Ymateb Stena Line i saith prif gwestiwn ynglŷn â Phorthladd Rhydd Caergybi:**

**Gwybodaeth o'r *Daily Post* 24/3/23:** https://www.dailypost.co.uk/news/north-wales-news/stena-line-answers-seven-key-26549992

**Mae awdurdod porthladd Caergybi a phrif gefnogwr y cais ochr yn ochr â Chyngor Ynys Môn yn egluro mwy am y porthladd rhydd.**

Yr wythnos hon llwyddwyd i sicrhau statws Porthladd Rhydd i Ynys Môn, penderfyniad a fydd yn arwain at greu miloedd o swyddi yn ôl cefnogwyr y cynllun. Sicrhawyd statws porthladd rhydd ar gyfer yr Ynys ynghyd â Phorthladd Rhydd Celtaidd Aberdaugleddau a Phort Talbot mewn penderfyniad ar y cyd gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Bydd Llywodraeth y DU yn darparu hyd at £26m o gyllid cychwynnol na fydd rhaid ei ad-dalu i bob porthladd rhydd – sy'n gyson â'r cynnig i borthladdoedd rhydd eraill yn Lloegr ac yn yr Alban. Stena Line a Chyngor Sir Ynys Môn oedd yn arwain ar y cynnig. Yma, mae Stena Line yn mynd ati i ateb ambell gwestiwn allweddol ynglŷn â'r porthladd rhydd a phryderon ynglŷn â cholli a diogelu swyddi.

**Sut fydd y porthladd rhydd yn gweithio?**

Bydd Porthladd Rhydd Ynys Môn yn ymestyn 45km o borthladd Caergybi, ar draws yr Ynys gyfan. Bydd pedwar parth yn cael eu dynodi fel safleoedd trethi neu dollau. Mae'r Cyngor a Stena Line wrthi'n trafod y safleoedd posib.

Bydd y safleoedd hyn o fewn y porthladd yn symleiddio gweithdrefnau masnachu a thollau, ac yn cymell mwy o fasnach a buddsoddi. Mae hyn yn golygu na fydd rheolau treth a thollau arferol y DU yn berthnasol i nwyddau a fydd yn dod i mewn i Borthladd Rhydd Caergybi, a hynny er mwyn cefnogi buddsoddiadau busnes tymor hir a hybu ffyniant yr Ynys yn ogystal â Gogledd Cymru gyfan. Bydd cymhelliannau treth a hawddfreintiau rheoleiddio ar gael i fuddsoddwyr ar safleoedd treth eraill yn ogystal. Ni fydd yr hawddfreintiau hyn yn effeithio ar y dulliau diogel lefel uchel sy'n bodoli yn y DU o ran llafur a materion amgylcheddol.

**Beth fydd y buddion i'r ardal ac i weithwyr lleol?**

Yn ôl gwaith dadansoddi a gwblhawyd gan y Ganolfan Ymchwil Economaidd a Busnes fe all Porthladd Rhydd Ynys Môn ddenu hyd at 13,000 o swyddi i Ogledd Cymru dros gyfnod o 15 mlynedd. Mae porthladdoedd rhydd ledled y byd yn adnabyddus am ddarparu swyddi o ansawdd sy'n talu'n dda.

Bydd Stena Line a Chyngor Sir Ynys Môn yn mynd ati'n rhagweithiol i ymgysylltu â Phrifysgol Bangor, M-Sparc, y Sefydliad Allforio a Masnach Ryngwladol, a Grŵp Llandrillo Menai ar gynlluniau i uwch-sgilio gweithwyr o bob cwr o Ogledd Cymru dros y blynyddoedd nesaf.

**Sut fydd y porthladd rhydd yn cefnogi cynlluniau sero net?**

Bydd y porthladd rhydd yn annog mwy i gynhyrchu ynni cynaliadwy ar Ynys Môn, gan ddarparu ychwaneg o ynni y mae mawr ei angen ar y DU a chyflawni targedau sero net ar yr un pryd. Mae sefydliadau fel GE-Hitachi, Rolls Royce SMR, Bechtel, BP Lightsource a Morlais Menter Môn yn barod i fuddsoddi mewn ynni glân ar yr ynys. Mae'r prosiectau'n cynnwys y prosiect ynni llanw mwyaf yn y byd i dderbyn caniatâd, ynni gwynt ar y môr, ynni niwclear ac ynni solar.

**A fydd y porthladd rhydd yn lliniaru rhywfaint o'r difrod sydd wedi cael ei wneud i fasnach nwyddau'r porthladd yn sgil Brexit?**

Ers Brexit, mae'r cysylltiad rhwng Dulyn a Chaergybi wedi dioddef cwymp o 19% mewn masnach. Credir mai sefydlu Porthladd Rhydd yn Ynys Môn yw'r ffordd fwyaf effeithiol o adfywio'r llwybr masnach rhyngwladol pwysig hwn.

Bydd Porthladd Rhydd Ynys Môn yn helpu i roi hwb i Gaergybi trwy alluogi masnachwyr o Ewrop i fanteisio ar y cyswllt cyflym sy'n bodoli rhwng Gweriniaeth Iwerddon a chyfandir Ewrop - "pont dir" Prydain - yn hytrach na defnyddio morlwybrau, sy'n arafach, yn llai effeithiol ac yn fwy costus.

Fe all adfywio pont dir Prydain yn llawn sicrhau cynnydd o £6bn i economi'r DU erbyn 2040.

**A fydd y porthladd rhydd yn arwain at golli swyddi a busnesau mewn rhannau eraill o Gymru, ac a fydd siroedd fel Gwynedd a Chonwy ar eu colled?**

Bydd Porthladd Rhydd Ynys Môn yn arwain at greu swyddi yn hytrach na'u colli. Trwy gydol y broses o baratoi'r cais, rydym wedi siarad gyda 38 o fusnesau sydd â diddordeb yn y cyfleoedd y gall porthladd rhydd ar Ynys Môn eu cynnig. Dywedodd nifer o'r busnesau hyn a oedd yn gefnogol i'r cais na fyddant wedi ystyried buddsoddi yn Ynys Môn na Gogledd Cymru fel arall.

**Pa fesurau fydd ar waith i ddiogelu gweithwyr, ac a fydd rheoliadau mwy llac ar faterion megis cynllunio yn golygu na fydd yr amgylchedd a safleoedd natur o bwys fel parc gwledig Penrhos yn cael eu gwarchod yn yr un modd?**

Bydd Porthladd Rhydd Ynys Môn yn cael ei llywodraethu gan reolau blaenllaw Sefydliad Parthau Rhydd y Byd/OECD ar Barthau Diogel a Pharthau Glân.

Hefyd, roedd gan Lywodraeth Cymru reolau penodol wrth ymgeisio ac roedd rhaid i bob cais amlygu’r modd y byddai’r amgylchedd a hawliau gweithwyr yn cael eu gwarchod. Mae gan CSYM ddyletswydd statudol i sicrhau ei fod yn amddiffyn hawliau ei weithwyr yn ogystal. Bydd y porthladd rhydd yn codi safonau yn hytrach na’u gostwng.

**Sut fydd y porthladd rhydd yn sicrhau twf economaidd a swyddi yn hen safle Alwminiwm Môn?**

Mae hen safle Alwminiwm Môn yn rhan allweddol o’r cais. Stena Line sydd berchen ar y safle ac mae nifer o gwmnïau wedi dangos diddordeb yn y safle, cyn belled bod statws porthladd yn cael ei sicrhau. Os ydi’r cais yn llwyddiannus yna bydd penderfynu ar ddynodiad swyddogol ar gyfer y safle yn rhan o waith cychwynnol y tîm.